

# **Edexcel BTEC Lefel 3 Natonals Dyfarniad mewn Celf a Dylunio (Cyfieithu Cymraeg)**

## **Unedau**

BTEC Cenedlaethol

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

Tachwedd 2009

Translated by: Steffan Alun

Proofread by: Catrin Alun

---

# Cynnwys

---

Uned 1:	Recordio Gweledol mewn Celf a Dylunio	1
Uned 2:	Deunyddiau, Technegau a Phrosesau mewn Celf a Dylunio	7
Uned 3:	Syniadau a Chysyniadau mewn Celf a Dylunio	13
Uned 4:	Cyfathrebu drwy Gelf a Dylunio	19
Uned 5:	Dylanwadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio	25
Uned 6:	Defnyddio, Archwilio a Gwireddu mewn Celf a Dylunio	31
Uned 7:	Dulliau Dylunio mewn Celf a Dylunio	37
Uned 12:	Cyfrifiaduron mewn Celf a Dylunio	43
Uned 16:	Hyrwyddo Gwaith Celf a Dylunio	49
Uned 27:	Cipio a Golygu Delweddau Digidol	53
Uned 37:	Cyfryngau, Technegau a Thechnoleg Graffeg	57
Uned 38:	Gwneud Delweddau Cyfryngau Cymysg	61
Uned 46:	Adrodd Stori'n Ddigidol	65
Uned 48:	Gwneud Delweddau Naratif	71
Uned 75:	Arlunio o Arsylwi	75
Uned 78:	Datblygu a Gwireddu Syniadau Celfyddyd Gain	79
Uned 80:	Peintio mewn Celfyddyd Gain	83
Uned 89:	Datblygu a Gwireddu Syniadau Crefft Dylunio	89
Uned 90:	Cyfryngau, Technegau a Thechnoleg Dylunio 3D	95
Uned 97:	Dylunio Cynnyrch	101
Uned 109:	Tecstilau Cerfluniol 3D	107
Uned 111:	Trin Ffabrig	113
Uned 120	Cyfryngau, Technegau a Thechnoleg Ffasiwn	119



# Uned 1: Recordio Gweledol mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>J/502/4965</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw ymestyn gallu dysgwyr i ddewis o amrywiaeth o ffynonellau a'u recordio'n weledol er mwyn cyfleu gwybodaeth i gynulleidfaoedd gwahanol, gan ddefnyddio dulliau cyflwyno priodol ac at amrywiaeth o ddibenion penodol.

## Cyflwyniad yr uned

Mae'r uned hon yn ymwneud â datblygu sgiliau recordio gweledol dysgwyr fel offeryn archwilio wrth gyfathrebu syniadau gwahanol. Mae dysgu sut i arsylwi a dewis gwybodaeth weledol o'r byd o'u cwrpas yn rhan hanfodol o'r uned hon. Bydd dysgwyr yn defnyddio ffynonellau cynradd i weithio o arsylwi uniongyrchol, gan ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth, i gyfathrebu a mynegi syniadau creadigol.

Mae ein bywydau heddiw yn llawn delweddau gweledol creadigol. Mae hysbysebion, ffilm, fideo a'r rhyngwrwd wedi dod yn rhan annatod o'n profiad gweledol. Mae safon ein byd gweledol yn dibynnu i raddau helaeth ar sgiliau recordio gweledol yr artist neu'r dylunydd, a'i allu i greu delweddau cyffrous a blaengar. Mae sgiliau recordio yn sylfaen i lwyddiant artist wrth gyfathrebu ei neges. Yn y broses o gynhyrchu eu syniadau, rhaid i artistiaid, crefftwyr a dylunwyr ddewis, defnyddio a mireinio eu recordiadau er mwyn cyfathrebu â'u cynulleidfa'n effeithiol.

Bydd y sgiliau recordio gweledol y bydd dysgwyr yn eu datblygu drwy'r uned hon yn sylfaen i'r holl unedau dilynol, felly maent yn sail i'r cymhwyster cyfan.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth o iaith weledol drwy ddefnyddio elfennau ffurfiol (llinell, tŵn, lliw, siâp, patrwm, arwyneb, strwythur ac ati) mewn amrywiaeth eang o weithgareddau astudiaethau gweledol. Bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i nodi a dewis rhinweddau gweledol priodol o arsylwi uniongyrchol at wahanol ddibenion. Bydd deall y broses o archwilio a recordio yn cynnwys arbrofi â gwneud marciau gan ddefnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau amrywiol sy'n briodol i lwybrau arbenigol dysgwyr.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod sut i nodi ffynonellau i'w recordio'n weledol
- 2 Gallu recordio'n weledol
- 3 Deall recordio gweledol yng ngwaith pobl eraill
- 4 Deall eu recordio gweledol eu hunain
- 5 Gallu datblygu recordio gweledol i gynhyrchu canlyniadau.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gwybod sut i nodi ffynonellau i'w recordio'n weledol

*Nodi:* e.e. dewis, ffynonellau, gweledol, heb fod yn weledol, dadansoddi, arsylwi, byd natur, byd adeiledig, macro, micro

*Ffynonellau cynradd:* byd natur e.e. y ffurf ddynol, anifeiliaid, pryfed, ffurfiau planhigion, microcosmau a strwythurau, tir, y môr, yr awyr, dŵr, tân; y byd adeiledig e.e. amgylcheddau adeiledig, ffurf bensaernïol, manylion trefol, strwythur, dodrefn stryd, eiconau, peiriannau, peirianeg, cynnyrch, arteffactau, gwrthrychau a weithgynhyrchir, dyfeisiau electronig; celf, crefft a dylunio e.e. paentiadau, cerfluniau, dillad, tecstilau, arteffactau, darluniau, gwrthrychau, ffotograffau, ar sgrin, printiau

*Ffynonellau eilaidd:* e.e. llyfrau, cyfnodolion, y rhynggrwyd, fideo, ffilmiau, CD-ROMs

## 2 Gallu recordio'n weledol

*Cofnodi:* e.e. gwybodaeth, syniadau, teimladau, archwilio, dulliau eraill; anffurfiol e.e. greddf, arbrof, archwiliadol, teimladau; ffurfiol e.e. dadansodol, ymchwiliol, dulliau, deunyddiau, offer, technoleg, prosesau

*Gwneud marciau:* e.e. elfennau ffurfiol, rhinweddau gweledol, deunyddiau, arwynebau; 2D e.e. paentio, arlunio, montage, ffotograffiaeth, gwneud printiau, cyfryngau digidol; 3D e.e. cerfio, torri, siapio, ffurfio, uno, CAD/CAM; delweddau symudol e.e. fideo, sain, animeiddio, perfformiadau, cerddoriaeth, bwrdd stori, ffilm; ffotograffiaeth dilyniannol a threiglâd amser, animeiddio, darlunio a phaentio ar ffilm

## 3 Deall recordio gweledol yng ngwaith pobl eraill

*Cymharu:* e.e. dadansoddi beirniadol, barn bersonol; gwerthusiad; arddulliau a dulliau, deunyddiau a thechnegau cyferbyniol; graddfa; diben, ystyr; cyd-destun; bwriad; cyfathrebu

*Gwybodaeth:* e.e. ffeithiol, addysgiadol, teimlad, naws, neges, syniadau, mater

*Gwybodaeth ofodol:* e.e. persbectif, cynlluniau, rhagamcanion, ffurfiau, ffeithiol, mynegiannol

*Adrodd stori:* e.e. byrddau stori, rhaglenni dogfen, syniadau, naratif gweledol, darlunio, ffilm, animeiddio

*Gwybodaeth benodol:* e.e. ffigurau rhifol, arwyddion, rhagamcanion, gwybodaeth orthograffig neu isomedrig, cynlluniau, patrymau, dyluniadau, diagramau, cyfarwyddiadau

*Gwahanol gynulleidfaedd:* e.e. llwybrau arbenigol, hysbysebu, grwpiau oed, syniadau dylunio, deunydd hyrwyddo, arddangosfeydd, ar sgrin, printiedig

*Recordio gweledol:* e.e. gwneud marciau, elfennau ffurfiol, iaith weledol; ffynonellau cynradd ac eilaidd; deunyddiau a thechnegau

#### 4 **Deall eu recordio gweledol eu hunain**

*Gwerthuso*: e.e. dros dro, terfynol; ffurfiol e.e. tiwtorialau, cyflwyniadau a gynlluniwyd, gwerthuso prosiectau terfynol; anffurfiol e.e. sesiynau barnu, trafodaethau, asesu gan gyfoedion a hunanasesu

*Barnau personol*: dadansoddiad beirniadol; nodweddion; ystyr; diben/bwriad; cyfathrebu; cyd-destun; anodiadau, nodiadau, datganiadau, gwerthusiad terfynol

*Recordio gweledol*: gwneud marciau; elfennau ffurfiol e.e. llinell, tŷn, lliw, siâp a ffurf, patrwm ac arwyneb; astudiaethau a arsylwyd, ffynonellau cynradd, ffynonellau eilaidd, cyfryngau, deunyddiau, technegau a thechnoleg; iaith weledol e.e. cyfansoddiad, strwythur, cydbwysedd, cyferbyniadau, pwysau

#### 5 **Gallu datblygu recordio gweledol i gynhyrchu canlyniadau**

*Datblygu*: e.e. dadansoddi, mireinio, archwilio, potensial, cyfansoddiad (safbwynt,ocio, ehangu, goleuadau, symudiad, strwythur, cydbwysedd, trefniant), addasu (golygu, cymhwyso, egluro, ychwanegu, gwella, pwysleisio, ad-drefnu), adborth

*Cynhyrchu deilliannau*: e.e. llwybr arbenigol, cyfres, wedi addasu, argraffiad, printiau, prototeip, cynlluniau, dyluniadau, maquettes, modelau, darnau prawf, darnau terfynol



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi ffynonellau cynradd ac eilaidd ar gyfer recordio [YA, MC]	<b>T1</b> ymchwilio ac ymateb i ffynonellau a ddewiswyd yn annibynnol, gan ddangos sgiliau recordio gweledol effeithiol yn gyson	<b>Rh1</b> dangos annibyniaeth, blaengaredd ac unigoliaeth wrth werthuso a defnyddio ffynonellau, gan integreiddio sgiliau cofnodi gweledol a dealltwriaeth drylwyr wrth gyfleu gwybodaeth
<b>LI2</b> recordio'n weledol [DM, YA, MC, CE, HR]		
<b>LI3</b> trafod recordio gweledol yng ngwaith pobl eraill [YA, GT] [YA2; YA5; YA6; MC1]	<b>T2</b> dangos ymagwedd bersonol tuag at gyfathrebu, cymharu, darlunio ac ehangu gwybodaeth a chyflwyno gwaith mewn fformat creadigol cydlynol a phriodol	
<b>LI4</b> adolygu eu recordio gweledol eu hunain [DM, GT, HR]		
<b>LI5</b> datblygu recordio gweledol i gynhyrchu deilliannau effeithiol. [MC, YA, DM, GT, HR]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned 2: Deunyddiau, Technegau a Phrosesau mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>R/502/4967</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr wrth weithio'n ddiogel ac yn greadigol gyda'r defnyddiau, y technegau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'u llwybr arbenigol.

## Cyflwyniad yr uned

Mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o ddeunyddiau, technegau a phrosesau yn eu gwaith, weithiau gan gyfuno crefftau traddodiadol gyda chelf a dylunio cyfoes mewn ffyrdd blaengar. Mae datblygiadau mewn technolegau newydd wedi cyflwyno cyfoeth o gyfleoedd newydd i'r broses greadigol. Mae defnydd ymarferwyr o ddeunyddiau, o dechnegau ac o brosesau yn cael effaith uniongyrchol ar olwg a theimlad arteffactau a chynhyrchion, eu cyflwyniad a'r gost o gynhyrchu.

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr wrth weithio'n ddiogel ac yn greadigol gyda'r deunyddiau, y technegau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'u llwybr arbenigol. Bydd yn galluogi dysgwyr i archwilio, i arbrofi ac i ddeall y defnydd o amrywiaeth o ddeunyddiau, o dechnegau ac o brosesau.

Wrth i'r uned ddatblygu, bydd dysgwyr yn dod yn ymwybodol o bwysigrwydd materion iechyd a diogelwch y technolegau sy'n gysylltiedig â'u disgyblaethau arbenigol. O ganlyniad, mae'r uned yn sail i'r holl unedau eraill yn y cymhwyster ac yn hanfodol i baratoi dysgwyr ar gyfer dilyniant galwedigaethol.

Dylai dysgwyr ddangos sgiliau a dealltwriaeth yn eu gwaith datblygu ac wrth gynhyrchu gwaith gorffenedig. Er mwyn dewis a defnyddio deunyddiau a thechnegau priodol, bydd dysgwyr yn gwerthuso'r rhinweddau a'r nodweddion gwahanol sy'n gysylltiedig â gwahanol gyfryngau. Byddant yn dysgu sut i adolygu eu harbrofion yn feirniadol ar gyfnodau gwahanol yn eu datblygiad er mwyn addasu a mireinio eu gwaith wrth iddo ddatblygu. Bydd dysgwyr hefyd yn cael gwybod am arwyddocâd a gwerth astudio gwaith ymarferwyr proffesiynol ar gyfer datblygu eu gwaith eu hunain.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu archwilio deunyddiau, technegau a phrosesau'n ddiogel
- 2 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau'n ddiogel
- 3 Deall addasrwydd deunyddiau, technegau a phrosesau.

# Cynnwys yr Uned

## 1 Gallu archwilio deunyddiau, technegau a phrosesau'n ddiogel

*Amrywiaeth o ddeunyddiau:* e.e. 2D, 3D, seiliedig ar amser, papurau, ffabrigau naturiol a synthetig, cerdyn, gwydr, persbecs, ffoil alwminiwm, pren, clai, plastigau, concriid, dur, dalennau alwminiwm, cyfrifiaduron, caledwedd a meddalwedd

*Gwneud marciau:* e.e. gwlyb, sych, lens (datguddiad, tafluniad), tecstilau (lliwio, argraffu, troi, anwe), gludwaith, montage, ffurfio 3D, ffabrigo (cerfio, modelu, gludo, weldio, rhybedio, clymu), seiliedig ar amser (cyfwng, parhad)

*Prosesau 2D:* e.e. argraffu unwaith, argraffu cerfweddol, tapestri, gwehyddu, brodwaith peiriant, argraffu pigment, gwasgnodi/argraffu troslun, paentio, darlunio cyfryngau cymysg, brasluniau bawd, lens (goleuadau, cipio, datguddiad, trin, datblygu, argraffu, cyflwyniad)

*Prosesau 3D:* e.e. gwneud maquette, armatyrau, adeiladu, gwneud mowldiau, castio, gwaith cyfryngau cymysg, toiles, gwneud modelau, peirianeg papur, CAD/CAM

*Prosesau sy'n seiliedig ar amser:* e.e. fideo, sain, perfformiadau, cerddoriaeth, bwrdd stori, ffilm, dylunio gwefannau, animeiddio, llyfrau fflipio

*Archwilio:* arbrofi e.e. dadansoddi, dulliau, arwynebau, paramedrau (gwlybanaeth, sychder, hydrinedd, ymarferoldeb, ymwrthedd); ymchwilio e.e. offer, technolegau (llaw, mecanyddol, electronig neu ddigidol), dilyniant, treigladd amser; cyfuno deunyddiau e.e. arlunio ar ffilm, gwydredd ceramig, ffabrigau wedi'u lliwio, gludwaith, cyfosodiadau, gosodiadau, penodol i safle

*Iechyd a diogelwch:* dileu risg i'w hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn amgylchedd stiwdio; dilyn canllawiau'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) priodol ar ddeunyddiau; deall asesiadau risg

## 2 Gallu defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau'n ddiogel

*Defnyddio gwybodaeth am ddeunyddiau, technegau a phrosesau:* cyfyngiadau e.e. dewis, bwriadau, cyd-destun, briff; potensial e.e. arbrofion, profi, arwynebau, cynalyddion, gwlybanaeth, sychder, hydrinedd, ymarferoldeb, gwrthiant; ymchwilio e.e. offer, technolegau, llyfr brasluniau, dylunio, arlunio, recordio, darnau prawf, datblygu, darnau gorffenedig

## 3 Deall addasrwydd deunyddiau, technegau a phrosesau

*Gwerthuso addasrwydd:* rhinweddau e.e. addasrwydd i'r diben, estheteg, nodweddion, effeithiau, deunyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; opsiynau eraill e.e. gwahanol gyfuniadau; dulliau gweithio, cymariaethau; terminoleg gywir e.e. termau technegol, geirfa feirniadol; penderfyniadau e.e. deunyddiau, technegau, offer, technolegau, prosesau, addasrwydd

*Camau'r broses:* e.e. arbrofion cychwynnol, syniadau, cyflwr cychwynnol, amser setio, amser sychu, paratoi, cynllunio, storio, datrys problemau, datblygu, gorffen, cyflwyno

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p><b>LI1</b> archwilio deunyddiau, technegau a phrosesau'n ddiogel archwilio deunyddiau, technegau a phrosesau'n ddiogel [YA, MC, HR, DM]</p>	<p><b>T1</b> dangos dealltwriaeth ystyriol o nodweddion a defnyddiau deunyddiau, technegau a phrosesau drwy ymchwiliad manwl a chynhyrchu gwaith arbrofol amrywiol</p>	<p><b>Rh1</b> defnyddio dadansoddiad, gwerthusiad a thechnegau arbrofol yn graff i ddatblygu gwaith sy'n cydnabod llawn botensial a chyfyngiadau deunyddiau, technegau a phrosesau.</p>
<p><b>LI2</b> defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau [YA, MC, HR, DM, CE]</p>	<p><b>T2</b> dadansoddi a defnyddio deunyddiau, technegau a phrosesau yn bwrpasol.</p>	
<p><b>LI3</b> gwerthuso addasrwydd deunyddiau, technegau a phrosesau dethol ar gamau perthnasol o'r broses. [YA, MC, HR, DM, GT, CE]</p>		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol





# Uned 3: Syniadau a Chysyniadau mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>K/502/5736</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o feddwl yn greadigol, ar draws celf a dylunio cyfoes a hanesyddol, er mwyn hysbysu eu harfer eu hunain.

## Cyflwyniad yr uned

Mae syniadau a chysyniadau yn graidd i holl feddwl celf a dylunio creadigol. Mae blaengaredd, dychymyg a greddf ym myd galwedigaethol celf a dylunio yn hanfodol i ymarferwyr greu gwaith celf, dyluniadau a chynnyrch llwyddiannus. Mae gweithwyr proffesiynol yn defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau deallusol, greddfol a chanfyddiadol wrth gynhyrchu a datblygu eu syniadau. Er mwyn sicrhau comisiynau, rhaid i ymarferwyr gynhyrchu syniadau arloesol a gallu mireinio a chyflwyno eu syniadau mewn ffyrdd cyffrous, perswadiol ac argyhoeddiadol.

Byddant yn ymchwilio i ffynonellau cyd-destunol er mwyn archwilio a dadansoddi syniadau creadigol ymarferwyr gwahanol. Trwy'r broses hon bydd dysgwyr yn dadansoddi'r syniadau a'r cysyniadau a ddefnyddir gan ymarferwyr at ddibenion gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys astudio iaith, delweddau, arteffactau, ystyr, arsylwi uniongyrchol, sensitifrwydd canfyddiadol a chymhellion yr ymarferwyr eu hunain mewn celf a dylunio.

Dylai ymchwilio a dadansoddi i brosesau meddwl ymarferwyr a damcaniaethwyr celf a dylunio gyfeirio ac ysbrydoli meddwl creadigol y dysgwyr eu hunain wrth greu, datblygu a chyfathrebu eu syniadau a'u cysyniadau. Bydd dysgwyr yn dod i ddeall eu prosesau meddwl blaengar eu hunain drwy gynnal gweithgareddau a briffiau sy'n rhoi cyfleoedd iddynt archwilio posibilïadau o fewn ystod o syniadau a chysyniadau.

Wrth weithio drwy'r uned hon, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu. Wrth baratoi i symud ymlaen i arfer proffesiynol, rhaid i ddysgwyr werthfawrogi'r angen i greu cyflwyniadau gwybodus ac ysgogol o'u syniadau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Deall sut mae syniadau a chysyniadau'n cyfeirio gwaith celf a dylunio
- 2 Gwybod sut i gynhyrchu syniadau
- 3 Gallu creu a mireinio syniadau mewn ymateb i friffiau a roddir
- 4 Gallu cyfathrebu a chyflwyno syniadau a chanlyniadau i wahanol gynulleidfaoedd.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Deall sut mae syniadau a chysyniadau'n cyfeirio gwaith celf a dylunio

*Cyfeiriadau:* cyfeiriadau gweledol; cyfeiriadau nad ydynt yn weledol; cyfoes; hanesyddol; syniadau e.e. Dada, Swrealaeth (seicdreiddiad, ysgrifennu awtomatig, hysbysebu), Symbolwyr (gweledigaethau, trosiad), Picasso (llyfrau braslunio, datblygu syniadau), cred grefyddol (symbolau, adeiladau, arteffactau), Moderniaeth (Bauhaus, pensaernïaeth, llenyddiaeth, cerddoriaeth, celfyddydau cymhwysol); cysylltiedig â chelf e.e. cynaliadwyedd, celf a chymdeithas, y cyfryngau, celfyddydau perfformio, celf a'r amgylchedd, athroniaeth, crefydd

*Syniadau:* dylanwadau e.e. gweledol, ysgrifenedig, llafar, artistiaid eraill, dylunwyr, gweledyddion, chwedloniaeth; cyfathrebu e.e. ystyr, cysyniadau, semanteg, trosiad, eicon, amwysedd, cyfatebiaeth

## 2 Gwybod sut i gynhyrchu syniadau

*Technegau ymchwilio:* e.e. arsylwi uniongyrchol, archwilio ymarferol, profi, cysylltu rhydd, meddwl cyfresol, meddwl ochrol, cysylltu geiriau a lluniau, greddf

*Ffocws:* e.e. gwreiddioldeb, teimlad, ystyr, cyfathrebu, blaengaredd, geiriol, di-eiriau, mater, esthetig, proses, adnoddau

## 3 Gallu creu a mireinio syniadau mewn ymateb i friffiau a roddir

*Dadansoddiad neu friff:* e.e. egluro gofynion, anghenion cleientiaid, meddwl yn greadigol, datrys problemau, cynllunio gweithredu; cyfyngiadau, syniadau adolygu, ymateb i adborth

*Cynhyrchu a mireinio syniadau:* e.e. nodiadau, sain, recordiadau fideo, astudiaethau bras, brasfodelau, rhestrau, siartiau llif, mapiau meddwl, brasluniau bawd

*Cyd-destun:* marchnad e.e. cleient, cynulleidfa, defnyddwyr, prynwyr, demograffeg, hoffterau, anghenion; amgylcheddau; gwireddu e.e. safle, graddfa, cynhyrchu, adeiladu, gosod, cynnyrch terfynol, meintiau, amserlen

## 4 Gallu cyfathrebu a chyflwyno syniadau a chanlyniadau i wahanol gynulleidfaoedd

*Technegau delweddu:* syniadau e.e. taflenni gwaith, samplau darnau tecstilau, gwneud modelau, symud ar lwybr rhagosodol, maquettes, ffilmio ar leoliad, taflenni cyswllt, proflenni, clipiau fideo, animeiddiadau, byrddau stori, tudalennau ar y we

*Cyfleu syniadau:* e.e. dadansoddi, newid, addasu, mireinio, syniadau, adolygiadau, dadansoddiad, ymateb, llwyddiant, methiant, arferion gwaith, deunyddiau, technegau, safon, estheteg

*Dulliau cyflwyno:* e.e. mowntio, arddangos, gosod, digwyddiadau, fforwm, cyfarfod, trafodaeth, ar sgrin, tafluniad, gweledol, ysgrifenedig, nodiant, ar lafar, sylwebaeth, troslais, trac sain, cerddoriaeth, perfformiad, blogiau, blogiau fideo, podlediadau

*Gwahanol gynulleidfaoedd:* e.e. tiwtoriaid, cyfoedion, cynulleidfaoedd (arbenigol, anarbenigol), grwpiau oedran, ymarferwyr proffesiynol, gweithwyr swyddfa, gweithwyr gartref, technegwyr, diwydianwyr, rheolwyr, cyfarwyddwyr cwmnïau, gweithwyr cyflogedig, hunan-gyflogedig, di-waith, cyflogwyr, gwirfoddol, preifat, cyhoeddus

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> cymharu syniadau a chysyniadau mewn celf a dylunio [YA, MC, DM, HR, CE]	<b>T1</b> defnyddio canlyniadau ymchwil pwrpasol i gyfeirio eu syniadau a'u cysyniadau eu hunain, gan ddangos cyfeiriad cydlynol wrth greu a datblygu syniadau	<b>Rh1</b> dadansoddi a dehongli ymchwil yn annibynnol i gynhyrchu syniadau a chysyniadau personol, gan feddwl yn soffistigedig wrth greu, addasu a chyfosod syniadau gwreiddiol
<b>LI2</b> ymchwilio i dechnegau cynhyrchu syniadau [CE, MC, YA, HR]	<b>T2</b> dangos ymagwedd ystyriol at gynhyrchu syniadau a datrysiadau pwrpasol mewn ymateb i friffiau, gan gyflwyno gwaith yn gydlynol ac yn effeithiol.	<b>Rh2</b> dangos ymagwedd unigol a threiddgar at gynhyrchu a chyfathrebu gwaith blaengar a deniadol, gan ddefnyddio dulliau cyflwyno soffistigedig.
<b>LI3</b> cynhyrchu a mireinio syniadau mewn ymateb i friffiau a roddir [GT, CE, MC, YA, HR, DM]		
<b>LI4</b> cyfleu a chyflwyno syniadau a chanlyniadau i wahanol gynulleidfaoedd. [DM, MC, GT, HR, CE]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i'r dysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

# Uned 4: Cyfathrebu drwy Gelf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>D/502/4969</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr o ran cyfathrebu trwy gyfrwng celf a dylunio. Bydd dysgwyr yn cyflawni hyn drwy astudio sut mae ymarferwyr yn defnyddio delweddau gweledol yn bennaf i gyfleu syniadau, negeseuon ac ystyr, ac yna'n defnyddio canfyddiadau yn eu syniadau eu hunain.

## Cyflwyniad yr uned

Mae'r gallu i gyfathrebu syniadau mewn ffyrdd gwreiddiol a blaengar yn hanfodol i holl ymarferwyr celf, crefft a dylunio. Mae cynulleidfaoedd a chleientiaid posib yn dod i wybod mwy a mwy am y gwahanol fathau o gyfathrebu, ac mae gofyniad cyson am syniadau ffres a chreadigol i ddisodli neu ddiwygio ffurfiau cyfarwydd. Ym mhob maes galwedigaethol celf, crefft a dylunio, rhaid i ymarferwyr adolygu a diweddarau eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddefnyddio dulliau newydd a mwy effeithiol o gyfathrebu syniadau yn barhaus.

Bydd dysgwyr wedyn yn defnyddio'r ymchwil hwn yn eu syniadau eu hunain, gan ymchwilio ac archwilio i dechnegau cyfathrebu y maent wedi'u hastudio.

Bydd yr uned yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i gyfleu ystyron a negeseuon gwahanol, trwy drin elfennau ffurfiol mewn cyfryngau 2D, 3D neu sy'n seiliedig ar amser fel ffordd o greu amrywiaeth o ddelweddau neu arteffactau at wahanol ddibenion. Bydd ffurf y gweithiau celf a dylunio, a'r cyfryngau'r technegau a ddefnyddir i gyfleu ystyr, yn amrywio yn ôl arbenigeddau'r dysgwyr ond disgwylir y byddant yn cael profiad ar draws y disgyblaethau.

Rhaid i ddysgwyr werthfawrogi'r angen i greu cyflwyniadau gwybodus ac ysgogol am eu bwriad i gyfathrebu syniadau i gynulleidfaoedd gwahanol. Bydd dysgwyr yn defnyddio sgiliau gweledol ac fel arall i archwilio amrywiaeth o dechnegau a dulliau cyflwyno.

Gallai'r uned hon gael ei hintegreiddio gydag aseiniadau uned arbenigol, gan fod yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol yn sail i'r holl unedau eraill yn y cymhwyster.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Deall sut y defnyddir cyfryngau, deunyddiau a phrosesau yng ngwaith pobl eraill i gyfleu syniadau ac ystyr
- 2 Gallu datblygu iaith weledol
- 3 Gwybod sut y defnyddir celf a dylunio i gyfleu syniadau ac ystyr
- 4 Gallu cyfathrebu drwy ddefnyddio iaith celf a dylunio.



## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gwybod am gyfnodau twf a datblygiad ar hyd cyfnod bywyd dynol

*Cyfnodau bywyd:* cenhedlu; beichiogrwydd; genedigaeth a babandod – 0–3 oed; plentyndod – 4-9 oed; llencyndod – 10–18 oed; oedolaeth – 19–65 oed; oedolaeth hŷn; 65+; cyfnodau olaf bywyd

*Diffiniadau:* twf; datblygiad; normau datblygiad; cerrig milltir datblygiad; cwrs bywyd; aeddfedrwydd; hyd oes disgwylidig

*Datblygiad:* datblygiad cyfannol; corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol ym mhob cyfnod o fywyd; achosion ac effeithiau posib datblygiad wedi ei oedi a'i atal

### 2 Gallu datblygu iaith weledol

*Iaith weledol:* elfennau ffurfiol e.e. llinell, tŷn, gwedd, graddfa, lliw, siâp, ffurf; mynegiant; teimlad; delweddaeth e.e. symbolau, argraffiadau, cyfansoddiadau, lluniau, gweledigaethau, semioteg; syniadau gweledol; darluniau; delweddau 2D; darnau 3D; darnau sy'n seiliedig ar amser

*Dulliau deunyddiau a chyfryngau:* e.e. cyfryngau 2D (gwneud marciau, arlunio, paentio, ffotograffiaeth, gludwaith, gwneud printiau, cyfryngau digidol), cyfryngau 3D (creu gwrthrychau, defnyddio deunyddiau, offer, cyfarpar, prosesau a thechnegau, cerfio, modelu, adeiladu, llunio, torri, ffurfio), cyfryngau sy'n seiliedig ar amser (ffilm, fideo, aml-gyfryngol, cyfryngau rhyngweithiol), cyfryngau cyfun (dillad, ffasiwn, animeiddio, perfformiad)

### 3 Gwybod sut y defnyddir celf a dylunio i gyfleu syniadau ac ystyr

*Celf a dylunio:* arbenigedd e.e. paentio, ffotograffiaeth, teipograffeg, dylunio cynnyrch, cerflunio, fideo, animeiddio, gwneud patrymau, gwneud ffelt, brodwaith, gwneud modelau, gwneud printiau, lliwio, darlunio, dylunio gêm

*Cyfathrebu:* golwg; presenoldeb e.e. elfennau ffurfiol, cyffyrddol, sain, symudiad, arogl, gofodol, rhyngweithiol; cyd-destun e.e. cyflwyniad, cyfosodiad, fframio, cefnogaeth, gofod, amgylchedd; ffurfiau e.e. arwyddion, symbolau, hysbysfyrddau, taflenni, paentiadau, cerfluniau, ar sgrin, pecynnu, ar raddfa fawr, ar raddfa fach, DVD

### 4 Gallu cyfathrebu drwy ddefnyddio iaith celf a dylunio

*Cyfathrebu ystyr a fwriedir:* neges; gwybodaeth; mynegiant; syniad; teimlad; bwriad e.e. briff gosod, briff a nododd ei hun

*Cyflwyno:* e.e. arddangos, prosiect, sioe, sylwebaeth

*Cynulleidfa benodedig:* e.e. defnyddwyr, ymwelwyr ag oriel, 'cynulleidfa' celfyddyd gain, darllenwyr, ystod oedran, dosbarth, 'sectorau' diwylliannol, unigolion, grwpiau, diddordebau arbennig, anghenion neu ofynion, ffurfwyr barn, arbenigwyr, cyhoeddus, preifat, masnachol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> esbonio sut y defnyddir cyfryngau a deunyddiau yng ngwaith pobl eraill i gyfleu syniadau ac ystyr [YA]	<b>T1</b> gwerthuso sut y defnyddir cyfryngau, deunyddiau a phrosesau yn amrywiol i gyfleu syniadau ac ystyr, gan dynnu ar eu harbrofion eu hunain i wneud cymariaethau effeithiol	<b>Rh1</b> cyfathrebu ystyr bwriadol yn argyhoeddiadol i gynulleidfa benodol drwy ddefnydd dychmygus o iaith celf a dylunio
<b>LI2</b> creu eu hiaith weledol eu hunain trwy weithio gyda deunyddiau, cyfryngau a phrosesau [MC, DM]	<b>T2</b> cyfathrebu ystyr bwriadol yn glir i gynulleidfa benodol drwy ddefnydd wedi'i fireinio o iaith celf a dylunio.	
<b>LI3</b> disgrifio ffyrdd y defnyddir iaith weledol i gyfleu syniadau ac ystyr [YA, DM]		
<b>LI4</b> cyfathrebu ystyr a fwriedir i gynulleidfa benodol gan ddefnyddio iaith celf a dylunio. [MC, HR]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 5: Dylanwadau Cyd-destunol mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>R/502/4970</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr o sut mae dylanwadau hanesyddol a diwylliannol yn cyfeirio celf, crefft a dylunio. Bydd dysgwyr yn cyflawni hyn drwy ymchwilio a chofnodi gwybodaeth, gan ddatblygu sgiliau beirniadol a dadansoddol, a chysylltu hyn â datblygu eu harfer eu hunain.

## Cyflwyniad yr uned

Mae artistiaid, crefftwyr a dylunwyr bob amser wedi edrych i'r gorffennol am ysbrydoliaeth a blaengaredd. Er mwyn dysgu o'r gorffennol ac adeiladu ar greadigrwydd pobl eraill, mae'n bwysig i ddysgwyr werthfawrogi rhai o'r ffactorau sy'n hanfodol i ddatblygiad proffesiynol ymarferydd gan ddeall pwysigrwydd dylanwadau hanesyddol a diwylliannol ar gelf, crefft a dylunio. Mae ymarferwyr ym mhob maes o'r sector hefyd yn cydnabod angen a gwerth cadw llygad ar ddatblygiadau celf, crefft a dylunio cyfoes, o fewn a'r tu hwnt i'w hymarfer arbenigol.

Bwriedir i'r uned hon fod yn sail i wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o gelf, crefft a dylunio cyfoes a hanesyddol. Mae'n sail i'r holl unedau eraill yn y cymhwyster ac yn ceisio hybu a dyfnhau ymwybyddiaeth gyd-destunol dysgwyr o'u gwaith eu hunain. Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o symudiadau allweddol o fewn cyd-destun hanesyddol a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer eu dealltwriaeth o weithiau celf, crefft a dylunio. Bydd dysgwyr hefyd yn deall pam bod sawl artist, crefftwr a dyluniwr yn gallu ymateb i dechnolegau newydd a materion amgylcheddol. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau wrth nodi, ymchwilio, dethol a chofnodi cyfeiriadau priodol i'w hastudio o ffynonellau cyd-destunol cynradd ac eilaidd. Trwy archwilio a chofnodi amrywiaeth eang o ffynonellau, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau beirniadol a dadansoddol drwy ddefnyddio cyfuniadau o gyflwyniadau gweledol, ysgrifenedig a llafar. Bydd hyn yn cyfrannu at gylch cymhwyso, wrth i ddealltwriaeth gyd-destunol gyfrannu at sgiliau'r dysgwr ac wrth i'w hymarfer roi gwybodaeth fewnol iddynt o waith ymarferwyr eraill.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am ddatblygiadau a dylanwadau allweddol mewn celf, crefft a dylunio
- 2 Gallu ymchwilio a chofnodi gwybodaeth hanesyddol, gyfoes a chyd-destunol
- 3 Gallu adolygu, cynhyrchu a chyflwyno canlyniadau o ffynonellau cyd-destunol.

## Cynnwys yr Uned

### 1 Gwybod am ddatblygiadau a dylanwadau allweddol mewn celf, crefft a dylunio

*Datblygiadau hanesyddol a chyfoes:* nodweddion; damcaniaethau; dylanwadau; perthnasoedd; effaith; technolegau (dyfeisiadau, gweithgynhyrchu, ffotograffiaeth, prosesau argraffu, sinema, digidol)

*Mudiadau:* 19eg ganrif e.e. Rhamantiaeth, Realiaeth, Argraffiadaeth, Ôl-argraffiadaeth, Symbolaeth, Mynegiadaeth, Mudiad Celf a Chrefft, Art Nouveau; 20ed ganrif e.e. Fauvism, Ciwbiaeth, Dyfodolaeth, Dada, Swrealiaeth, Bauhaus, Art Deco, Realiaeth Gymdeithasol, Adeileddiaeth, Mynegiadaeth Haniaethol, Celf Bop, Moderniaeth, Ôl-foderniaeth, Celf Bync; Celf Brydeinig; Celf Berfformio, Celf Gosod, Celf o'r Tu Allan; 21ain ganrif e.e. digidol, celf fideo, y rhyngrywyd, globaleiddio

*Dylanwadau:* e.e. celfyddyd gain, ffotograffiaeth, graffeg, ffasiwn, cerameg, ffurfiau celfyddydol eraill, y cyfryngau torfol, diwylliant boblogaidd, materion amgylcheddol, gwaith eraill

*Cyd-destun diwylliannol ehangach:* digwyddiadau pwysig e.e. Chwyldro Diwydiannol, Yr Arddangosfa Fawr, diwygiadau dylunio, gwladychiaeth, cyfathrebu, masnach, rhyfeloedd, newid cymdeithasol, gwleidyddiaeth, mudo, rhyddid i lefaru, unigolyddiaeth

*Diwylliannau'r Byd:* e.e. celf Siapaneaidd, llwythol Affricanaidd, celf yr Aifft, Celtaidd, canoloesol, gwerin, celf naïf, carnifalau, ffeiriau

*Gwyddoniaeth a thechnoleg:* e.e. seicoleg, technoleg, deunyddiau newydd, ffotograffiaeth, cyfryngau digidol, animeiddio, cyfrifiaduron, darganfyddiadau moleciwlaidd, plastigau, neilon, micro-electroneg, LCD, aerodynameg, oes y gofod

### 2 Gallu ymchwilio a chofnodi gwybodaeth hanesyddol, gyfoes a chyd-destunol

*Ymchwili:* ffynonellau cynradd e.e. ymweliadau ag orielau, diwydiannau, gweithleoedd ymarferwyr, profiad gwaith; ffynonellau eilaidd e.e. llyfrau, cyfnodolion, CDs a DVDs, y rhyngrywyd

*Cofnodi:* dethol gwybodaeth briodol e.e. darllen, ymateb, dogfennau, pwyntiau allweddol, ymadroddion, dyfyniadau; nodiant e.e. amlygu testun, nodiadau, astudiaethau gweledol anodedig, cyfuniadau, ysgrifenedig, print, sain; gwybodaeth weledol, ffotograffiaeth, cyfweliadau, ymarferwyr; sylwebaeth e.e. gweithiau celf anodedig, geirfa alwedigaethol

*Gwybodaeth gyd-destunol:* cyd-destun hanesyddol; cyd-destun cymdeithasol; mudiadau allweddol; unigolion allweddol; dylanwadau; newidiadau e.e. cyfryngau, deunyddiau, technoleg, prosesau, technegau; iaith weledol e.e. elfennau ffurfiol; ymarferwyr e.e. gwaith pobl eraill, gweithwyr proffesiynol, cyfoedion, eu gwaith eu hunain

### 3 **Gallu adolygu, cynhyrchu a chyflwyno canlyniadau o ffynonellau cyd-destunol**

*Adolygu:* e.e. nodi, dethol, trefnu, ymchwilio, cynllunio, strwythuro, dadansoddi, creu

*Cynhyrchu:* e.e. fformat priodol ar gyfer cyflwyno; confensiynau academiaidd, llyfryddiaethau, cyfeiriadau

*Dulliau cyflwyno:* canlyniadau wedi'u cwblhau e.e. traethodau, adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol, tudalennau gwe, fideo, ffilm, nodiadau ategol, amlinellad/byrddau stori, DVDs rhyngweithiol, CD-ROMs, poster, cyflwyniadau ar y sgrin



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio nodweddion a dylanwadau mudiadau allweddol a gwaith unigolion [YA, MC]	<b>T1</b> ymchwilio a threfnu gwybodaeth am ddatblygiadau celf, crefft a dylunio, gan gysylltu'r cyd-destunau y cynhyrchwyd y gwaith ynddynt yn effeithiol	<b>Rh1</b> dethol a dadansoddi gwybodaeth gymhleth yn annibynnol, o ymchwil gynhwysfawr
<b>LI2</b> dangos sut y mae'r cyd-destunau diwylliannol yn berthnasol i gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes [YA, MC]	<b>T2</b> mynegi barn gydlynol, wedi'i chefnogi gan enghreifftiau a dynnir o ffynonellau sefydledig	<b>Rh2</b> mynegi barn hyddysg a chasgliadau wedi'u dadlau, gan ddefnyddio iaith arbenigol yn rhugl
<b>LI3</b> cynhyrchu ymchwil cynradd ac eilaidd [YA, MC, DM, HR]		
<b>LI4</b> adolygu gwybodaeth a chynhyrchu deilliannau [YA, MC, DM, HR, CE]		
<b>LI5</b> cyflwyno deilliannau. [GT]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned 6: Defnyddio, Archwilio a Gwireddu mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>H/502/4973</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>20</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>120</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu ac yn ymestyn eu dealltwriaeth a'u medrau pwnc arbenigol, gan wireddu eu potensial creadigol trwy ymchwil bersonol, trwy arbrofi a thrwy gyfathrebu syniadau gan ddefnyddio cyfryngau celf a dylunio arbenigol.

## Cyflwyniad yr uned

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn defnyddio'r medrau arbenigol y maent wedi'u datblygu mewn unedau eraill drwy archwilio a defnyddio cyfryngau, deunyddiau a thechnegau. Byddant yn datblygu ac yn ymestyn eu gwybodaeth am bwnc arbenigol, gan wireddu eu potensial creadigol trwy ymchwil bersonol, trwy arbrofi a thrwy gyfathrebu syniadau.

Mae'r broses o archwilio, cymhwyso a gwireddu syniadau celf a dylunio yn rhan annatod o waith pob ymarferwr proffesiynol. Mewn ymateb i friffiau a roddir neu a gychwynnir ganddynt eu hunain, rhaid i ymarferwyr dynnu ar eu profiad a'u dealltwriaeth i ymestyn ffiniau eu creadigrwydd, ennill comisiynau a diwallu anghenion cleientiaid.

Mae'r uned yn dwyn ynghyd gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr mewn arfer crefft a dylunio a gafwyd yn ystod eu cwrs. Mae'r uned hon yn cynnwys cylch cyfan dylunio er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddysgwyr ddangos meddwl gweledol creadigol, blaengar o fewn eu llwybrau arbenigol.

Bydd dysgwyr yn dadansoddi gofynion briffiau a drafodir neu a gychwynnir ganddynt eu hunain ac yn creu cynnig manwl o'u bwriad. Byddant yn archwilio egwyddorion dylunio drwy astudiaethau gweledol creadigol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil eang a pherthnasol o ffynonellau cynradd a chyd-destunol, gan ddatblygu eu sgiliau iaith weledol arbenigol a'u gallu i gyfathrebu syniadau drwy hyn.

Bydd dadansoddi ac adolygu beirniadol o'u syniadau a'u defnydd o ddeunyddiau arbenigol yn rhan hanfodol o waith datblygol y dysgwyr. Bydd dysgwyr yn dangos dealltwriaeth o botensial a chyfyngiadau cyfryngau, offer a thechnegau dethol drwy eu harbrofi a'u hadolygiad parhaus o'u cynnydd.

## Canlyniadau dysgu

### Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu cynnal ymchwil personol o ffynonellau cyd-destunol
- 2 Gallu creu atebion i friff a drafodwyd
- 3 Gallu dewis ac arbrofi'n ddiogel gyda chyfryngau, deunyddiau a thechnegau arbenigol
- 4 Deall ffactorau wrth adolygu gwaith a datblygu canlyniadau
- 5 Gallu gwireddu a chyflwyno canlyniadau terfynol i fodloni briff.

## Cynnwys yr Uned

### 1 Gallu cynnal ymchwil personol o ffynonellau cyd-destunol

*Ymchwil ac astudio personol:* ffynonellau cyd-destunol cynradd e.e. organig, yr amgylchedd adeiledig, sioeau, casgliadau, orielau, arddangosfeydd, amgueddfeydd, gweithdai; ffynonellau cyd-destunol eilaidd e.e. hanesyddol, cyfoes, dylanwadau diwylliannol (cyfnod, arddull, symudiadau allweddol, gorllewinol, anorllewinol, digwyddiadau, tueddiadau ffordd o fyw, llenyddiaeth, cerddoriaeth, theatr, ffilmiau), llyfrgelloedd, ffotograffiaeth, ar bapur, cyhoeddiadau ar-lein, digidol, ffynonellau clyweled

*Cofnodi gwybodaeth:* e.e. archwilio, elfennau ffurfiol, darluniau, digidol, ffotograffau, clipiau fideo, nodiadau, brasluniau, clipiau fideo, camerâu digidol, ffonau llun, y rhyngwyd

*Ymchwil:* e.e. ymweliadau, cyfweliadau, holiaduron, adroddiadau, llyfrau brasluniau, ffeiliau

### 2 Gallu creu atebion i friff a drafodwyd

*Trafod a gweithio i friff:* e.e. cleient, defnyddiwr, anghenion y gynulleidfa, gofynion, cyfyngiadau, rhwystrau; datblygu datrysiadau e.e. cynhyrchu syniadau cychwynnol, ffurfioli syniadau

*Cynhyrchu syniadau:* nodi; dethol; cofnodi; mireinio e.e. ymchwil weledol, elfennau ffurfiol, darluniau, syniadau; gwerthuso gwaith e.e. datblygiadau, darnau terfynol, estheteg, ffurf, swyddogaeth, ansawdd, addasrwydd at y diben; fformatau cyflwyno eraill e.e. ffeiliau cyfeirio, llyfrau brasluniau, cyfryngau lens, byrddau dylunio, proffiliau cwsmeriaid/cynulleidfa, ymdriniaethau

*Iaith weledol:* cyfryngau; deunyddiau; technegau gwneud marciau; cyfathrebu gweledol; fformat priodol e.e. □maes arbenigol, byrddau stori, llyfrau braslunio, taflenni dylunio, delweddau cyfryngau lens, modelau, maquettes; cyflwyno gwaith a gwblhawyd e.e. dadansoddiad, arddangos, arddangosfa

### 3 Gallu dewis ac arbrofi'n ddiogel gyda chyfryngau, deunyddiau a thechnegau arbenigol

*Deunyddiau, cyfarpar a thechnegau:* deunyddiau e.e. 2D, 3D, seiliedig ar amser, papurau, ffabrigau, cerdyn, gwydr, clai, plastig, dur, cyfrifiaduron; cyfarpar e.e. offer llaw, peiriannau; technegau e.e. prosesau adeiladu, torri, ffurfio, mowldio, gwehyddu, uno, CAD/CAM, prosesau gorffen

*Iechyd a diogelwch:* Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; dileu risg i'w hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn amgylchedd gweithdy; dilyn canllawiau COSHH ar ddeunydd ac ymarfer gweithdy

*Cyfathrebu gweledol:* nodweddion e.e. arwyneb, lliw; syniadau e.e. mynegiant, testun, dylanwadau, meddyliau; lluniadau gweithio e.e. fflatiau, lluniadau wrth raddfa, cynlluniau safle, lluniadau technegol, lluniadau manyleb

#### 4 **Deall ffactorau wrth adolygu gwaith a datblygu canlyniadau**

*Ffactorau cyffredinol:* dylanwadau e.e. hanesyddol, cyfoes, diwylliannol, technolegol, cymdeithasol, cyfnod, arddull, mudiadau allweddol, gorllewinol, anorllewinol, digwyddiadau, tueddiadau ffordd o fyw, cerddoriaeth, theatr a ffilmiau

*Ffactorau arbenigol:* e.e. technolegau newydd, lefel y farchnad, cyfeiriad, maint cynhyrchiad, cost deunyddiau, cyfathrebu, swyddogaeth, ffurf

*Datblygu ac adolygu:* e.e. archwilio, cofnodi, arlunio, arsylwi, gwneud nodiadau, esbonio, cyfuno, cymharu, mireinio, cyferbynnu, atgynhyrchu, ailadeiladu, gwerthuso

#### 5 **Gallu gwireddu a chyflwyno canlyniadau terfynol i fodloni briff**

*Gwireddu:* cynlluniau e.e. camau, cydrannau, trefn y gwaith, amseru; dehongli e.e. darluniau, samplau, modelau; adeiladu e.e. cywirdeb, gorffen; canfod diffygion; materion ansawdd e.e. cost, maint, dyluniad

*Cyflwyno:* datblygu e.e. penderfyniadau, strwythur, beirniadu, meini prawf, briff, anghenion, cyfyngiadau, materion, esthetig, technegol, personol; canlyniadau e.e. paentiadau, cerfluniau, printiau, ar y sgrin, gwefannau, dillad, darnau, setiau, darnau unigryw, gorffen, arddangos; gwerthusiad e.e. addasiadau, gwelliannau, dylunio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p><b>LI1</b> cynnal gwaith ymchwil personol o ffynonellau cyd-destunol [YA, HR, DM]</p>	<p><b>T1</b> ymchwilio ac ymateb i ffynonellau, gan ddangos cyfeiriad a bwriad clir a chyson</p>	<p><b>Rh1</b> ymchwilio i gyfeiriadau gwybodus a ddewiswyd yn annibynnol, gan ddangos meddwl personol a chyfeiriad creadigol blaengar</p>
<p><b>LI2</b> datblygu atebion i briff a drafodwyd, gan ddatblygu ac ymestyn sgiliau iaith weledol [MC, DM, HR]</p>	<p><b>T2</b> dangos blaengaredd wrth ddethol a defnyddio deunyddiau, offer a thechnegau, gan ddefnyddio dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar arbenigedd wrth arfarnu gwaith yn erbyn y briff</p>	<p><b>Rh2</b> dangos gwerthfawrogiad beirniadol craff, gan fodloni'r briff drwy ddefnyddio dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar arbenigedd.</p>
<p><b>LI3</b> dewis ac arbrofi'n ddiogel gyda chyfryngau, deunyddiau a thechnegau arbenigol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu gweledol [YA, MC, HR]</p>	<p><b>T3</b> dangos ymagwedd unigol at strwythuro, adolygu a chyflwyno gwaith mewn fformat cydlynol ac ystyriol</p>	

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI4</b> adolygu gwaith a datblygu canlyniadau [YA, HR]	<b>T4</b> cynhyrchu canlyniadau effeithiol a medrus sy'n dangos lefel gyson o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth.	
<b>LI5</b> gwireddu a chyflwyno canlyniadau terfynol i fodloni briff [YA, MC, HR]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned 7: Dulliau Dylunio mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>T/502/4976</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth o'r broses ddylunio a sgiliau wrth ddefnyddio'r rhain wrth greu gwaith celf a dylunio.

## Cyflwyniad yr uned

Wrth ddatblygu dyluniadau i fodoni gofynion briff, mae'r cylch datblygu a ddefnyddir yn hanfodol i sicrhau canlyniadau effeithiol. Bydd defnyddio methodoleg ddylunio'n sicrhau yr ystyrir yr holl ffactorau pwysig mewn ffordd strwythuredig. Rhaid i ddylunwyr allu datblygu a chyfathrebu eu syniadau a'u cysyniadau drwy sgiliau 2D a 3D. Mae'n bwysig i ddysgwyr ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyfathrebu eu bwriadau'n effeithiol.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd defnyddio'r dulliau priodol i gyflawni eu bwriadau creadigol. Byddant yn datblygu syniadau ac yn canolbwyntio ar gysyniadau o fewn cyfyngiadau'r briffiau penodol. Byddant yn dysgu sut i gyfleu eu syniadau a'u bwriadau'n broffesiynol, trwy gyfathrebu gweledol a llafar ac yn y broses ymgynghori.

Dylai briffiau gael eu hysgrifennu a'u cyflwyno mewn cyd-destun galwedigaethol, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr weithio ar sefyllfaoedd a chanlyniadau realistig. Gellir gosod prosiectau mewn meysydd 2D a 3D i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau ymchwil a dadansoddi, syntheseiddio a rheoli amser angenrheidiol, yn ogystal â sgiliau gwaith tîm a trefnu. Fe'u cyflwynir i gylch datblygu dylunio trwy friffiau prosiect penodol.

Bydd rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o gyfyngiadau cyfreithiol, megis hawlfraint, rheoliadau adeiladu a materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â deunyddiau, technegau ac arferion penodol sy'n effeithio ar eu cynigion.

Mae'r uned yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio pob maes cyfathrebu gweledol, gan gynnwys mapio meddwl, brasluniau cysyniadol, modelu arbrofol a maint, proflenni, byrddau naws, byrddau lliw/sampl a chyflwyniadau terfynol.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Deall y broses datblygu dyluniad
- 2 Gallu defnyddio'r broses datblygu dyluniad yn eu gwaith eu hunain
- 3 Gallu cyfathrebu syniadau a bwriadau'n glir
- 4 Gallu gweithio'n ddiogel gydag eraill.

# Cynnwys yr Uned

## 1 Deall y broses datblygu dyluniad

*Dadansoddi ac egluro'r briff:* gofynion e.e. penodol, cyfyngiadau, trafodaeth, diffiniad, eglurhad

*Cynllunio:* llinell amser e.e. camau dylunio, trefnu, cadw at amserlen; dyrannu e.e. amser, adnoddau, ymchwil, datblygu, gweithredu, adolygiadau, argyfwng, cyflwyno

*Ymgynghoriad:* e.e. cleientiaid, defnyddwyr terfynol, pobl â diddordeb, cydweithwyr

*Proses:* ymchwil e.e. gwaith pobl eraill, cyd-destun tebyg, cymariaethau, hanesyddol, cyfoes, cyd-destunau eraill; dulliau gweithio e.e. traddodiadol, anhraddodiadol, deunyddiau, technegau, enghreifftiau o waith dylunio; syniadau cychwynnol e.e. creu syniadau, mapio meddwl, byrddau hwyliu, brasluniau cysyniad, archwiliadol, modelau gweithio, atebion amgen

*Cysyniadau dylunio:* e.e. delweddau 2D, proflenni, brasfodelau, maquettes, samplau, darnau prawf

*Adolygu ac addasu:* e.e. trafod, dethol, gwrthod syniadau cychwynnol, cynnig, newid, gweithredu

*Canlyniad terfynol:* e.e. arteffactau, dyluniadau i'w cynhyrchu, prototeipiau, cyflwyno dyluniadau mewn ymateb i friff

*Gwerthusiad:* effeithiolrwydd e.e. rheoli amser, canlyniad(au) yn erbyn y briff, cryfderau, gwendidau

## 2 Gallu defnyddio'r broses datblygu dyluniad yn eu gwaith eu hunain

*Nodi ac egluro cyfleoedd dylunio:* ymgynghori e.e. cleientiaid, cydweithwyr, defnyddwyr terfynol

*Datblygu syniadau mewn ymateb i ymchwil a'r briff:* cofnodi syniadau e.e. nodiadau ysgrifenedig, cofnodion o gydweithio, brasluniau, modelau cysyniad; addasu syniadau cychwynnol e.e. deunyddiau amgen, addasiadau arddull, newidiadau corfforol; cynhyrchu modelau arbrol, modelau graddfa

*Cynhyrchu atebion dylunio effeithiol:* blaengaredd; cynaliadwyedd; opsiynau eraill; ymgynghori e.e. adborth, cleientiaid, defnyddwyr eraill; datrysiadau e.e. dethol, dewis, gofynion y briff

## 3 Gallu cyfathrebu syniadau a bwriadau'n glir

*Ymgynghori â chleientiaid ac eraill:* ar lafar; defnyddio iaith briodol (termau proffesiynol, confensiynau, ysgrifenedig a llafar)

*Adolygiad adborth:* sylwadau; adolygu cynigion; diwygio cynigion

*Cyfathrebu bwriadau:* gweledol e.e. delweddau creadigol, modelau, darluniau technegol, anodiadau clir, proflenni; dulliau amrywiol; datblygu sgiliau cyfathrebu ar-lein e.e. fideo-gynadledda, gwe-gamerâu, cydweithio ar-lein, prawfddarllen electronig

#### 4 **Gallu gweithio'n ddiogel gydag eraill**

*Gweithio o fewn iechyd a diogelwch a chyfyngiadau cyfreithiol eraill: e.e. rheoliadau adeiladu, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, cyfraith hawlfraint, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH); gweithredu offer a chyfarpar yn ddiogel; cynnal amgylchedd stiwdio diogel*

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio'r broses datblygu dyluniad [YA, MC, GT, HR, CE]	<b>T1</b> dangos dealltwriaeth glir a defnydd effeithiol o'r broses ddylunio yn gyson	<b>Rh1</b> dangos annibyniaeth a chreadigrwydd wrth ddilyn y broses ddylunio'n ddiogel, gan gynhyrchu canlyniadau proffesiynol yn seiliedig ar waith ymchwil sy'n canolbwyntio'n fanwl ac ar ddatblygu syniadau'n gydweithredol.
<b>LI2</b> defnyddio'r broses datblygu dyluniad yn eu gwaith eu hunain [YA, MC, DM, GT, CE]	<b>T2</b> defnyddio cyfathrebu llafar a gweledol ag eraill yn hyderus ac yn effeithiol.	
<b>LI3</b> cyfleu syniadau a bwriadau'n glir [MC, DM, GT, HR, CE]		
<b>LI4</b> gweithio'n ddiogel gydag eraill. [MC, GT, HR, CE]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

# Uned 12: Cyfrifiaduron mewn Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>Y/502/5747</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth o'r defnydd o gyfrifiaduron mewn celf a dylunio. Byddant yn ymchwilio i ddefnyddiau cyfrifiadur presennol, ac yn datblygu ymatebion creadigol trwy eu hastudiaeth a'u cynhyrchiad eu hunain o waith celf a dylunio.

## Cyflwyniad yr uned

Mae'r defnydd o gyfrifiaduron gan artistiaid a dylunwyr wedi'i sefydlu'n gadarn mewn sawl maes a disgyblaeth. Mae'r maes hwn o gelf a dylunio'n gyffrous ac yn ddeinamig, gyda thechnolegau newydd yn datblygu'n barhaus, gan alluogi datblygu ffyrdd newydd o gyfathrebu a chyfuno gwahanol ffurfiau celf a dylunio. Mae deall a gwybod y diweddaraf am newidiadau i anghenion technolegol y diwydiant creadigol yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr fod yn hyblyg ac yn addas i'w cyflogi. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn ymwneud â thechnoleg newydd ac yn datblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyfathrebu syniadau'n effeithiol mewn sector gystadleuol, technegol a blaengar iawn.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd y defnyddir cyfrifiaduron fel cyfryngau newydd mewn celf a dylunio cyfoes. Byddant hefyd yn datblygu dealltwriaeth o fanteision posib cyfuno technegau celf a dylunio digidol a thraddodiadol a phrosesau i ddatblygu eu gwaith eu hunain. Rhagwelir y cyflwynir technegau digidol, ar y cyd â chaledwedd priodol, fel sylfaen i ddatblygu sgiliau wrth ddefnyddio technoleg a phrosesau newydd i gyfathrebu syniadau, cysyniadau a chynigion celf a dylunio mewn ffyrdd cyfoes a blaengar.

Bydd y graddau y gellir cynnwys yr amrywiaeth lawn o dechnegau digidol yn dibynnu ar gael mynediad i gyfleusterau caledwedd cyfrifiadurol a meddalwedd aml-gyfrwng y ganolfan.

Bydd rhaid i ddysgwyr gael briffiau priodol i ganolbwyntio eu gwaith ac i'w harwain drwy ymchwilio ac arbrofi gyda chaledwedd a meddalwedd, mewn perthynas â chelf a dylunio. Bydd rhaid dylunio briffiau o fewn cyd-destun galwedigaethol perthnasol gan ystyried datblygiadau diwydiannol newydd i galedwedd cyfrifiadurol a thechnoleg meddalwedd. Bydd y sgiliau hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu ac i addasu i amgylchedd galwedigaethol lle mae cyfrifiaduron yn chwarae rhan allweddol.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Deall potensial cyfryngau digidol mewn ymarfer celf a dylunio cyfoes
- 2 Gallu dewis deunyddiau ar gyfer arbrofi digidol
- 3 Gallu cynhyrchu gwaith gan ddefnyddio technegau digidol celf a dylunio.



# Cynnwys yr Uned

## 1 Deall potensial cyfryngau digidol mewn ymarfer celf a dylunio cyfoes

*Cyfryngau digidol:* llwybr dewisol; arbenigedd e.e. cylchgronau, fideos ffilm, fideos cerddoriaeth, teitlau, animeiddio, darlunio, gemau cyfrifiadurol, pensaerniaeth, CAD, CAM, celfyddyd gain, comics, ffasiwn, print, cerddoriaeth, dylunio graffeg

*Ymarfer cyfoes:* cynhyrchu e.e. gwaith ffotograffig, steilio ffasiwn, ffasiwn, dylunio tecstilau, dylunio 3D, dylunio cynnyrch, celfyddyd gain ddigidol, ffilm, cyfathrebu graffig; gwaith digidol e.e. anodi, allbrint, brasluniau, ffotograffau, llungopiâu, nodiadau, cyflwyno, trafod

## 2 Gallu dewis deunyddiau ar gyfer arbrofi digidol

*Deunyddiau:* gwaith celf, crefft a dylunio (digidol, traddodiadol) e.e. brasluniau, printiau, paentiadau, tecstilau, modelau, 2D, 3D, ysgrifennu, ffotograffau, deunyddiau a ganfyddir, gwrthrychau naturiol, fideo, sain, recordiadau, llungopiâu, deunydd printiedig; paratoi ar gyfer digido; rhinweddau e.e. technegol, esthetig; addasrwydd at y diben

*Digido:* technoleg ddigidol e.e. sganiwr, sgrin gyffwrdd, tabled graffeg, camera fideo, meicroffon, camera digidol, bysellwrdd; gwahaniaethau mewn prosesau digido

*Cyfuno cyfryngau:* cyfryngau traddodiadol; cyfrifiaduron; prosesau; manteision; priodweddau e.e. pwyslais, nodweddion, effeithiau, defnyddiau, addasrwydd, cyfyngiadau, potensial creadigol; ystyriaethau e.e. rhwystrau, cof, cyflymder, maint, adnoddau, amser

*Cyfryngau digidol:* wrth gefn e.e. storio, allanol, mewnol, dyfeisiau; caledwedd arbenigol; meddalwedd 2D e.e. trin delweddau, lluniadu, paentio, fector, graffeg raster, teipograffeg, dylunio gwefan, argraffu, meddalwedd 3D e.e. CAD, CAM, modelu 3D, torri laser; meddalwedd sy'n seiliedig ar amser e.e. animeiddio, rhyngweithiol, awduro aml-gyfrwng, sain, fideo

## 3 Gallu cynhyrchu gwaith gan ddefnyddio technegau digidol celf a dylunio

*Technegau digidol:* golygu e.e. cipio, trin defnyddiau; cynhyrchu syniadau e.e. haenu, cyfansoddi, lawrlwytho, cofnodi

*Deilliannau:* delweddau e.e. papur, sgrin, sain, taflunydd; technegau digidol a yrrir gan lwybr neu arbenigedd e.e. trin delweddau, aflunio, gwneud patrymau, haenu, darlunio, cyfryngau cymysg, gosodiad tudalen, arlunio, teipograffeg; arteffactau e.e. modelu, cylchdroi, troi, melino, turnio, allwthio, cysylltu, rendro ffrâm wifren, gwadau arwyneb; rhyngweithiol e.e. aml-gyfrwng, llywio, botymau, math, elfennau rhyngweithiol, sain, delweddau symudol, dalennau arddull rhaeadrol, tafluniad sgriptio sylfaenol, gosod; animeiddio e.e. llinellau amser, fframiau allweddol, paramedrau, cynhyrchu fframiau rhyngol, animeiddio croen nionod, parhad, llwybr symudiad

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> adolygu'r potensial am gyfryngau digidol mewn ymarfer celf a dylunio cyfoes [YA, MC, DM, HR, CE]	<b>T1</b> egluro'r potensial am gyfryngau digidol mewn ymarfer celf a dylunio cyfoes	<b>Rh1</b> dadansoddi cyfryngau digidol mewn arferion celf a dylunio cyfoes
<b>LI2</b> dewis deunyddiau celf a dylunio ar gyfer arbrofi gan ddefnyddio technegau a phrosesau digidol [YA, MC, DM, HR, CE]	<b>T2</b> cynnal arbrofion effeithiol gan ddefnyddio technegau a phrosesau aml-gyfrwng yn bwrpasol	<b>Rh2</b> cynnal arbrofion dychmygus gan ddefnyddio technegau a phrosesau aml-gyfrwng yn annibynnol
<b>LI3</b> cynhyrchu deilliannau gan ddefnyddio technegau celf a dylunio. [YA, MC, DM, HR, CE]	<b>T3</b> cyflwyno deilliannau gweledol pwrpasol gan ddangos defnydd effeithiol o dechnegau celf a dylunio digidol	<b>Rh3</b> cyflwyno canlyniadau gweledol soffistigedig a dychmygus sy'n dangos defnydd soffistigedig o dechnegau celf a dylunio digidol

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 16: Hyrwyddo Gwaith Celf a Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>H/502/5511</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ymgyrchoedd hyrwyddo ac yn cyflwyno sgiliau wrth ddylunio a gwneud deunyddiau hyrwyddo. Mae'n archwilio ffyrdd o hyrwyddo gwaith celf, crefft a dylunio, a gellir ei chysylltu ag uned arbenigol i hyrwyddo'r gwaith a gynhyrchir.

## Cyflwyniad yr uned

Mae hyrwyddo a marchnata'n un maes sy'n gyffredin ar draws pob sector celf a dylunio. Dylai dysgwyr weld y rhain fel sgiliau trosglwyddadwy yn hytrach na rhywbeth ym maes dylunwyr graffig yn unig. Anogir dysgwyr i hyrwyddo eu gwaith celf a dylunio eu hunain ac i hyrwyddo eu hunain fel artistiaid a dylunwyr. Defnyddir hybu mewn celf a dylunio i gynyddu ymwybyddiaeth, i rannu gwybodaeth neu i esbonio technegau, ystyron a deunyddiau. Mae hefyd yn fwyaf cysylltiedig ag arddangos a gwerthu gwaith.

Rhaid i ddysgwyr ddatblygu sgiliau hyrwyddo a marchnata er mwyn datblygu cynaliadwyedd yn eu gyrfaedd, a dylent fod yn gallu hyrwyddo a thrafod eu gwaith eu hunain, gwaith eraill a'u hunain fel artistiaid a dylunwyr.

Gall hyrwyddo fod yn gysylltiedig â nodau datblygu a gall sgiliau cyfweld a chyflwyno fod yn rhan o'r ymgyrch, gyda'r dysgwr yn gleient a'r nod yw cynnal cyfweiliad llwyddiannus.

Yng nghyd-destun yr uned hon, efallai y gosodir briff agored i ddysgwyr yn adlewyrchu eu diddordebau. Efallai y byddant yn dewis llunio ymgyrch hyrwyddol ar gyfer band newydd sy'n cynnwys deunydd feirol i'r rhyngwrwd ar MySpace a YouTube, amserlenni teithiau, crysau-t, posteri, gigs rhad ac am ddim, cloriau CD a llyfrynnau. Neu efallai y gosodir briff byw i hyrwyddo eu gwaith eu hunain yng nghyd-destun arddangosfa oddi ar y safle neu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cyfleoedd i grwpiau weithio ar y cyd e.e. graffeg, crefftau dylunio a grwpiau cerddoriaeth yn gweithredu fel cleientiaid i'w gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymgyrch a deunyddiau hyrwyddo.

Gellir cyflwyno'r uned hon yn annibynnol neu ar y cyd ag unrhyw un o'r unedau arbenigol i hyrwyddo gwaith a gynhrychir. Gellir ei defnyddio hefyd ar gyfer datblygiad a dilyniant proffesiynol i roi gwell dealltwriaeth i ddysgwyr o sut i hyrwyddo eu gwaith ac i weithio gyda chleientiaid a chwsmeriaid.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am hyrwyddo gwaith celf a dylunio
- 2 Gallu cynllunio ymgyrch hyrwyddol
- 3 Gallu cynhyrchu deunydd hyrwyddol
- 4 Deall hyrwyddo celf a dylunio.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gwybod am hyrwyddo gwaith celf a dylunio

*Hyrwyddo gwaith celf a dylunio:* hyrwyddo e.e. hysbysebu, gwella, rhoi gwybod i eraill, codi proffil, rhoi ystyr, gosod mewn cyd-destun, ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth

*Sut i hyrwyddo:* e.e. hysbysebu, defnydd o gyfryngau, profi, cyfranogi, trafod, addysgu, rhoi arweiniad, cyflwyno gwybodaeth (yn weledol, ar lafar)

## 2 Gallu cynllunio ymgyrch hyrwyddol

*Ymgyrch hyrwyddol:* cyfleu ystyr; cynulleidfa darged e.e. cynnyrch, gwasanaeth; cleient e.e. busnes, cydweithiwr, hunan; neges; deunyddiau; costau; cyllideb; canlyniad a ddymunir e.e. niferoedd ymwelwyr, gwerthiannau, codi ymwybyddiaeth, gwneud cysylltiadau newydd

## 3 Gallu cynhyrchu deunydd hyrwyddol

*Deunydd hyrwyddol:* e.e. taflenni, cardiau post, poster, cardiau busnes, cardiau 'Moo', pamffledi, llyfrynau, hysbysebion, baneri, cwponau, tagiau, bathodynau, lluniau, samplau, CD-ROMs, pecyn i'r wasg, datganiad i'r wasg, datganiad; recordiadau e.e. sain, radio, podlediad, teledu, DVD, ffilm; rhyngwyd e.e. feirol, rhaglun, rhaglun byr, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, gwefannau, blogiau; trwy brofiad e.e. cyngherddau am ddim, gair llafar, arddangosfa, darlleniad; nwyddau e.e. cysau-t, amserlenni taith, CDs a llyfrynau, cylchau allwedd, sticeri, bathodynau, poster

## 3 Deall hyrwyddo celf a dylunio

*Ffynonellau gwybodaeth:* hunanwerthuso; sylwadau gan eraill e.e. cynulleidfa, cyfoedion, tiwtoriaid, cleientiaid

*Proses:* cynllunio; paratoi; rheoli amser; adolygu gwaith ar y gweill; cymwyseddau technegol, galluoedd creadigol

*Cynnyrch gorffenedig:* i ba raddau y gwiredwyd bwriadau; anghenion y gynulleidfa; cynnwys; arddull; sgiliau a ddangoswyd; datblygu sgiliau; meysydd i'w gwella, addaswyd at y diben

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> amlinellu ffyrdd gwahanol o hyrwyddo gwaith celf a dylunio [YA, MC,]	<b>T1</b> disgrifio ffyrdd gwahanol o hyrwyddo gwaith celf a dylunio gydag enghreifftiau ystyriol	<b>Rh1</b> cynhyrchu esboniad manwl wedi'i ddarlunio o ffyrdd i hyrwyddo gwaith celf a dylunio
<b>LI2</b> cynllunio ymgyrch hyrwyddo i friff [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T2</b> greu ymgyrch hyrwyddo bwrpasol	<b>Rh2</b> creu ymgyrch hyrwyddo gynhwysfawr a chreadigol
<b>LI3</b> dylunio a chreu deunydd hyrwyddo [YA, DM, MC, GT, HR, CE]	<b>T3</b> cynhyrchu deunydd hyrwyddo unigol a chydlynol	<b>Rh3</b> cynhyrchu deunydd hyrwyddo annibynnol, blaengar a chynhwysfawr
<b>LI4</b> adolygu effeithiolrwydd deunydd hyrwyddo eu hunain ac eraill. [YA, DM, CE]	<b>T4</b> dadansoddi effeithiolrwydd eu deunydd hyrwyddo eu hunain ac eraill	<b>Rh4</b> adolygu effeithiolrwydd eu deunydd hyrwyddo eu hunain a deunydd dethol

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 27: Cipio a Golygu Delweddau Digidol

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>K/502/5025</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr o ran cipio delweddau digidol, cyfarpar sganio a'r technegau sy'n gysylltiddig â chipio, golygu a phrosesu delweddau digidol. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cipio a phrosesu delweddau digidol wrth ddefnyddio offer sganio digidol a meddalwedd prosesu delweddau i gipio, i olygu ac i drin delweddau digidol.

## Cyflwyniad yr uned

Defnyddir delweddau digidol gan artistiaid, gan ddylunwyr a chan weithwyr proffesiynol mewn amrywiaeth o feysydd celf a dylunio. Mae artistiaid cain yn defnyddio delweddau digidol fel manau cychwyn i weithio mewn meysydd eraill, neu fel cyfryngau i ddatblygu bwriadau creadigol. Mae dylunwyr yn defnyddio delweddau digidol fel deunyddiau ffynhonnell, fel llyfrgell weledol o ddelweddau sydd o ddiddordeb iddynt, neu'n defnyddio camerâu fel llyfrau braslunio i gofnodi'r byd o'u cwmpas. Gellir datblygu ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith ymarferwyr o'r ffynonellau hyn. Gall ymarferwyr olygu ar-lein yn [www.photoshop.com](http://www.photoshop.com).

Mae nifer sylweddol y camerâu ffôn symudol o ansawdd uwch yn y blynyddoedd diwethaf wedi ehangu cwmpas a'r defnydd o ddelweddau digidol ar y rhyngwrwd. Mae llawer o ddyfeisiau camera llaw yn darparu tystiolaeth o ddigwyddiadau yn y fan a'r lle. Mae ehangiad gwefannau ar gyfer postio delweddau wedi galluogi pobl o gefndiroedd hynod amrywiol i ddatblygu unrhyw beth o gofnodion arddull dyddiadur i wersi tabl nodiant gitâr ar-lein. Mae catalogau digidol yn cynnwys lluniau llonydd ac adrannau rhyngweithiol.

Caiff delweddau digidol eu cipio gan ddefnyddio sganwyr yn aml hefyd gan weithwyr proffesiynol y cyfryngau. Er enghraifft, mae artistiaid yn sganio deunyddiau 2D a 3D a ganfyddir i greu gwaith newydd, mae dylunwyr yn defnyddio deunyddiau wedi'u golygu mewn dyluniadau ar y we ac animeiddiadau, ac mae ffotograffwyr yn sganio deunyddiau negyddol traddodiadol i'w golygu ac ar gyfer allbwn digidol. Mae llyfrgelloedd lluniau ac archifwyr hefyd yn defnyddio technoleg ddigidol i gipio a storio delweddau ffotograffig gwahanol.

Mae dulliau cynhyrchu digidol, gan gynnwys sganio, golygu a thrin delweddau, wedi'u hymgorffori yn arferion gwaith y diwydiannau creadigol ac felly maent yn sgiliau hanfodol i bawb sy'n mynd i'r meysydd galwedigaethol hynny. Defnyddir delweddau digidol wedi'u cipio ar draws y rhyngwrwd hefyd i gefnogi straeon newyddion, i gyflwyno syniadau gwaith celf unigol ac i wella blogiau fideo personol. Mae artistiaid cain hefyd yn ymwelwa ar nodweddion delweddau CCTV i gyfathrebu syniadau.

Wrth ddysgu sut i ddefnyddio cipio digidol ac offer sganio, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i gaffael a chadw ffeiliau digidol yn briodol at ddiben pwrpasol. Bydd asesu rhinweddau technegol deunyddiau ar gyfer cipio a sganio yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o addasrwydd deunyddiau gwahanol a gofynion eu trafod. Bydd yr ystyriaethau llif gwaith hyn, y mae'n rhaid eu gwneud cyn sganio, yn galluogi dysgwyr i ddeall rhai o gyfyngiadau a galluoedd creu ffeil ddigidol. Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau trosi deunyddiau i fformat ddigidol, trosi rhwng fformatau ffeiliau digidol gwahanol a throsi rhwng manau lliw gwahanol. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i archwilio goblygiadau manau lliw, mathau o ffeiliau a fformat mewn perthynas â'r defnydd terfynol a phwysigrwydd llif gwaith.

Bydd dysgwyr yn dysgu sut i adnabod a datblygu arferion gweithio i leihau'r diffygion cyffredin sy'n gysylltiedig â chreu delwedd ddigidol. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau prosesu delweddau digidol gan ddefnyddio meddalwedd safonol y diwydiant, gan ddysgu sut i baratoi a chadw delweddau'n briodol at bwrpas penodol. Cyflwynir dysgwyr i'r gofynion cyfreithiol, i'r materion moesegol ac i'r arferion proffesiynol sy'n gysylltiedig â chipio a phrosesu delwedd ddigidol.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu cipio delweddaueth ddigidol
- 2 Gallu prosesu delweddau digidol
- 3 Gwybod am ofynion cyfreithiol a materion moesegol.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gallu cipio delweddaeth ddigidol

*Cyfarpar sganio:* sganwyr e.e. gwastad, ffilm

*Cyfarpar lens:* e.e. camerâu digidol, camerâu ffôn symudol, gwe-gamerâu

*Amrywiaeth o ddeunyddiau:* trin 2D a 3D e.e. llinell, arlliw parhaol, wedi'i sgrinio, lliw, unlliw, tryloyw, di-draidd, gwrthrychau naturiol, gwrthrychau a ddarganfuwyd; lluniau teledu cylch cyfyng, fideo wedi'i lawrlwytho, VHS wedi'i drosi

*Sganio:* lliw gwaith a defnydd terfynol e.e. argraffu, sgrin, ppi, dyfnder bit, man lliw, torri, cylchdroi, maint, lefelau, cromliniau, hogi, fformat ffeil (e.e. TIFF, RAW, JPEG), maint ffeiliau, storio ffeiliau

*Diffygion cyffredin:* effeithiau annymunol e.e. picselu, posteru, castiau lliw, newidiadau tonaidd, difrod llwch, olion bysedd, crafiadau; diffygion goleuo e.e. tanamlygiad, goramlygiad

*Delweddau:* defnyddiau e.e. archifo, cyflwyno, gwaith celf digidol, mewnforio ar draws meddalwedd, blogiau, blogiau fideo, blogiau ffotograffau, cofnodion braslunio, gwaith celfyddyd gain, gosodiadau, cyflwyniadau ar-lein, e-bortffolios, riliau sioe, tiwtorialau gweledol

## 2 Gallu prosesu delweddau digidol

*Prosesu:* technegau trin delweddau e.e. lliw gwaith, gofyniad allbwn (e.e. LPI, DPI), man lliw, lefelau, cromliniau, cydbwysedd lliw, amrywiaeth tonaidd, golygu, eglurdeb, dyfnder bit, maint ffeil, fformat ffeil (e.e. RAW, TIFF, PSD, GIF), cywasgiad ffeil (colledion, di-golled); technegau trin e.e. cyfuno, trawsnewid, aflunio, hidlwyr, effeithiau; trosi e.e. man lliw (e.e. RGB, Adobe RGB, CMYK), pob lliw, proffiliau lliw, dibyniaeth ar ddyfais, delweddau symudol e.e. lawrlwytho, golygu, llwytho i fyny, trosi

*Technegau golygu:* e.e. cipio a lawrlwytho, cywasgu ffeiliau, meddalwedd golygu, llwytho fideo i fyny, cipio lluniau o sgrin, gludwaith, montage ffotograffig

## 3 Gwybod am ofynion cyfreithiol a materion moesegol

*Gofynion cyfreithiol:* e.e. hawlfraint, eiddo deallusol, trwyddedu meddalwedd, enllib, ymyrryd â phreifatrwydd

*Materion moesegol:* e.e. cyfrinachedd, cynrychiolaeth, hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb, cyfle cyfartal

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> cynhyrchu delweddau digidol at ddefnydd penodol [YA, MC, HR]	<b>T1</b> cynhyrchu delweddau digidol at ddefnydd penodol gyda chysondeb, gan drin deunyddiau yn effeithiol i leihau diffygion cyffredin	<b>Rh1</b> cynhyrchu delweddau digidol yn annibynnol at ddefnydd penodol, gan gyflawni technegau prosesu delwedd digidol yn greadigol.
<b>LI2</b> cynnal technegau prosesu delweddau digidol i gynhyrchu delweddau digidol [YA, MC, HR, DM]	<b>T2</b> prosesu delweddau digidol gan archwilio technegau'n greadigol i gynhyrchu delweddau digidol.	
<b>LI3</b> nodi gofynion cyfreithiol a materion moesegol yn ymwneud â delweddau digidol. [YA, HR]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
---------	--	---	--

# Uned 37: Cyfryngau, Technegau a Thechnoleg Graffeg

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>H/502/525</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn y gwahanol ffyrdd y defnyddir cyfryngau graffeg yn y diwydiant creadigol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio ac yn arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau a thechnolegau ac yn eu defnyddio i gynhyrchu eu canlyniad graffeg eu hunain.

## Cyflwyniad yr uned

Rhaid i ddylunwyr graffeg ddeall a defnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, o dechnegau ac o dechnolegau er mwyn datblygu syniadau a chynhyrchu gwaith gorffenedig at ddefnyddiau graffig. Rhaid iddynt feddu ar sgiliau defnyddio cyfryngau traddodiadol a digidol i ddatblygu darluniau, paentiadau neu waith cyfryngau cymysg ar gyfer darluniau, hysbysebion a phosteri. Mae llawer o ddylunio graffeg cyfoes yn cynnwys aml-haenu amrywiaeth o gyfryngau fel hyn gan ddefnyddio cyfarpar a phrosesau llaw, digidol a lens.

Dylai ymchwiliadau ymarferol fod yn sail i'r uned hon, gyda dysgwyr yn ymchwilio i wahanol dechnegau cyfryngau ac yn datblygu eu gwaith eu hunain. Dylid cofnodi arbrofion ac ymchwiliadau dysgwyr, fel bod eu proses a'u datblygiad yn glir. Er mwyn gwneud yr arbrofi hyn yn fwy effeithiol, bydd y dysgwyr yn archwilio ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan ddilyn themâu penodol. Gallai ffynonellau cynradd gynnwys ymweliad ag oriel neu daith maes, darluniau, brasluniau, astudiaethau lliw a ffotograffau. Gallai dysgwyr wedyn fynd â'r deunydd hwn i'r stiwdio i ddatblygu syniadau ymhellach. Yn yr uned hon, bydd dysgwyr hefyd yn edrych ar y ffordd y mae artistiaid a dylunwyr, mewn cyd-destun hanesyddol a chyfoes, yn defnyddio'r cyfryngau graffeg i ysbrydoli neu greu eu gwaith eu hunain.

Cynghorir y dylid cyflwyno'r uned hon yn gynnar iawn mewn rhaglen, gan barhau efallai am gymaint â dwy ran o dair o'r flwyddyn gyntaf fel uned 'hir a thenau'. Bydd yr wybodaeth y bydd dysgwyr yn ei hennill drwy ddefnyddio a dod yn fedrus yn y gwahanol dechnegau cyfryngau yn eu helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer canlyniadau terfynol yn ddiweddarach yn y rhaglen.

Y cam olaf yw adolygu'r perfformiad yn ogystal â'r broses gyfan, o'r cyfarfod cyntaf un hyd at y gwagio a'r dad-friffio.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am gyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg
- 2 Gallu defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg o fewn eu gwaith dylunio eu hunain
- 3 Gallu cyflwyno canlyniadau dylunio gan ddefnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gwybod am gyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg

*Ymchwilio:* arbrofi; darlunio e.e. arsylwadol, lluniadau gwneud marciau, cyfryngau graffeg; priodweddau ffisegol e.e. nodweddion, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol

*Cyfryngau:* cyfryngau sych e.e. pensiliau graffit, pensiliau lliw, siarcol, sialc, pasteli olew, creonau cwyr, leiner cain, pinnau ffelt, pinnau ffabrig, meddalwedd gyfrifiadurol, cyfryngau digidol; cyfryngau gwlyb e.e. paent, inciau arlunio, inc argraffu, cannydd, chwistrell baent, glud PVA, cemegau ffotograffig

*Technegau:* arlunio e.e. gwneud marciau, arsylwadol, technegol, fector, darluniad; paentio e.e. dyfrlliw, olew, acrylig, inc; gwneud printiau e.e. leino, colagraffig, sgrin, stensil, trosglwyddo ffotograff; cyfryngau cymysg; gludwaith; ffotograffeg e.e. ar ffilm, montage ffotograffig, digidol, trin delweddau, amlgyfrwng, fideo, sganio, llungopïo

*Technolegau:* offer llaw e.e. brwsys, rholeri, cyllyll crefft; offer mecanyddol e.e. gwasg argraffu, llungopiwyd, taflunyddion e.e. sgriniau sidan, blychau golau, camerâu, chwyddwyr, sganwyr, cyfrifiaduron

## 2 Gallu defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg o fewn eu gwaith dylunio eu hunain

*Eu gwaith dylunio eu hunain:* deilliannau graffeg e.e. darluniau, ffotograffau, gludwaith darluniadol, delweddau naratif, arwyddion, logos, deunydd pecynnu, llyfrau, cynlluniau erthyglau cylchgrawn, hysbysebu mewn cylchgronau, ymgyrchoedd hysbysebu poster, hysbysebion teledu, ffilm, teitlau rhaglenni

## 3 Gallu cyflwyno canlyniadau dylunio gan ddefnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg

*Cyflwyno:* dangos dyluniadau e.e. cyflwyno portffolio, arddangosfa, cyflwyniad seminar

*Deilliannau:* e.e. maquettes gorffenedig, modelau, printiau gosod, arteffactau gosod, fideo, digidol, ar y sgrin, clyweledol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> ymchwilio i gyfryngau, i dechnegau ac i dechnoleg graffeg [DM]	<b>T1</b> cymharu'r defnydd o gyfryngau, o dechnegau ac o dechnoleg graffeg yn eu gwaith eu hunain ac yng ngwaith pobl eraill	<b>Rh1</b> gwerthuso'r defnydd o gyfryngau, o dechnegau ac o dechnoleg graffeg yn eu gwaith eu hunain ac yng ngwaith pobl eraill
<b>LI2</b> defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg i fodloni briff dylunio [MC]	<b>T2</b> defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg yn amrywiol i fodloni briff dylunio'n gydlynol	<b>Rh2</b> defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg yn annibynnol ac yn flaengar i fodloni briff dylunio
<b>LI3</b> cyflwyno deilliannau dylunio gan ddefnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg graffeg [HR]	<b>T3</b> cyflwyno ac adolygu canlyniadau dylunio yn effeithiol gan ddefnyddio cyfryngau, technegau a thechnolegau graffeg	<b>Rh3</b> cyflwyno ac adolygu canlyniadau dylunio yn ddychmygus gan ddefnyddio cyfryngau, technegau a thechnolegau graffeg

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 38: Gwneud Delweddau Cyfryngau Cymysg

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>M/502/5253</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i ddatblygu sgiliau dysgwyr mewn defnydd creadigol ac arbrofol o gyfryngau a dulliau graffeg anhraddodiadol yn eu gwaith dylunio. Bydd dysgwyr yn dod i ddeall y defnydd posib o gyfryngau graffeg a'r ystod o sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar y ffurfiau hyn yn effeithiol.

## Cyflwyniad yr uned

Mae amrediad a chwmpas cynnyrch cyfryngau graffeg yn ehangach nag erioed. Wrth i ddiwydiannau'r cyfryngau a chyfathrebu ehangu, mae'r galw am ddylunwyr amryddawn, creadigol yn fwy nag erioed. Er gwaethaf y ffaith bod y rhan fwyaf o'r arfer galwedigaethol yn y cyfryngau graffeg yn ddigidol neu'n electronig yn bennaf, rhaid i ddylunwyr allu defnyddio amrywiaeth eang o arferion, o offer ac o ddeunyddiau er mwyn diwallu'r angen am ddylunio gwreiddiol, dyfeisgar. Mae ar ddylunwyr angen y galluoedd a'r sgiliau hyn i gystadlu ac i lwyddo yn y diwydiant. Ystyr y term 'gwneud delweddau cyfrwng cymysg' yn yr uned hon yw defnyddio ystod o ddefnyddiau a phrosesau nad ydynt yn gysylltiedig â phrosesau dylunio graffeg confensiynol er mwyn ysbrydoli creadigrwydd a blaengaredd ym maes dylunio a chynhyrchu cysyniadau.

Mae'r uned hon wedi'i dylunio i annog dysgwyr i fod yn greadigol ac yn arbrofol yn eu hymagwedd ac i ehangu eu profiad o ddefnyddio cyfryngau a dulliau anhraddodiadol yn eu gwaith dylunio. Trwy gwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall natur amrywiol cyfryngau graffeg a'r ystod o sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar y ffurfiau hyn yn effeithiol.

Rhaid i ddysgwyr ennill gwybodaeth dda o ddulliau atgynhyrchu ynghyd â dealltwriaeth o ffyrdd o weithredu'r prosesau hyn.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu defnyddio technegau a phrosesau cyfryngau graffeg arbrofol ac anhraddodiadol
- 2 Gallu defnyddio cyfryngau cymysg wrth gynhyrchu canlyniadau delwedd graffig
- 3 Gallu dewis technegau atgynhyrchu i greu canlyniadau delwedd graffeg.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gallu defnyddio technegau a phrosesau cyfryngau graffeg arbrofol ac anhraddodiadol

*Cyfryngau graffeg arbrofol ac anhraddodiadol:* cyfryngau cyfunol e.e. gludwaith, torri allan, gwrthsefyll cwyr, masgio, braslunio; cyfryngau lens e.e. ffotograffiaeth, fideo, animeiddio; cyfryngau digidol e.e. arlunio, darlunio, trin delweddau, delweddau symudol, modelu 3D; cyfryngau 3D e.e. papur, cerdyn, papier mâché, tecstilau, edau, plastr modelu, clai, weiren

### 2 Gallu defnyddio cyfryngau cymysg wrth gynhyrchu canlyniadau delwedd graffig

*Cyfryngau cymysg:* cyfuniadau e.e. deunyddiau, prosesau, fformatau, technegau, defnyddiau, cynnyrch

*Canlyniadau delwedd graffeg:* dylunio golygyddol e.e. cylchgronau, papurau newydd; hysbysebu e.e. posteri, hysbysebion yn y wasg; graffeg gwybodaeth e.e. mapiau, diagramau addysgiadol; deunydd pecynnu e.e. labeli, blychau, deunydd lapio; cyhoeddusrwydd e.e. hyrwyddiadau, posteri, taflenni, byrddau stori, cynnyrch delwedd symudol; dylunio hunaniaeth e.e. logos, symbolau, hunaniaeth gorfforaethol; darlunio

### 3 Gallu dewis technegau atgynhyrchu i greu canlyniadau delwedd graffeg

*Technegau atgynhyrchu:* technegau cynhyrchu e.e. argraffu sgrin, lithograffeg; technegau lens e.e. ffotograffiaeth, delwedd symudol; technegau digidol e.e. sganio, samplu, cynhyrchu DVD, hyrwyddo ar y we

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd theilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio technegau a phrosesau cyfryngau graffeg arbrofol ac anhraddodiadol [YA, MC, DM, GT, HR]	<b>T1</b> archwilio cyfryngau graffeg ac anhraddodiadol yn gydlynol	<b>Rh1</b> archwilio cyfryngau graffeg amrywiol ac anhraddodiadol yn annibynnol
<b>LI2</b> defnyddio cyfryngau cymysg wrth gynhyrchu canlyniadau delwedd graffeg [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T2</b> dylunio cynnyrch cyfryngau graffeg effeithiol, sy'n defnyddio arferion cyfryngau graffeg arbrofol ac anhraddodiadol	<b>Rh2</b> dylunio cynnyrch cyfryngau graffeg blaengar yn annibynnol, sy'n defnyddio arferion cyfryngau graffeg arbrofol ac anhraddodiadol
<b>LI3</b> dewis technegau atgynhyrchu i greu canlyniadau delwedd graffeg [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T3</b> egluro, gan gyfeirio at enghreifftiau wedi'u dewis yn dda, technegau a ddefnyddir i greu canlyniadau delwedd graffeg	<b>Rh3</b> gwerthuso, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl, technegau a ddefnyddir i greu canlyniadau delwedd graffeg

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned 46:

# Adrodd Stori'n Ddigidol

**Cod yr Uned:**

**J/502/5260**

**FfCCH Lefel 3:**

**Tystysgrif Genedlaethol BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

## Nod a phwrpas

Trwy'r uned hon, bydd dysgwyr yn archwilio pwysigrwydd adrodd stori gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Bydd dysgwyr yn ystyried mecanwaith adrodd stori, a byddant yn llunio, yn cynllunio, yn recordio ac yn trin deunydd gweledol a chlywedol i wireddu stori'n ddigidol.

## Cyflwyniad yr uned

Mae adrodd straeon, boed yn ffuglen neu'n ffeithiol, yn rhan hanfodol o fywyd, o ddiwylliant ac o gymdeithas. Caiff rhai o'r negeseuon pwysicaf yn y gymdeithas eu cyflwyno a'u trosglwyddo ar ffurf straeon. Dros y canrifoedd, mae wedi bod yn agwedd bwysig ar ddatblygiad dynol. Mae straeon wedi cael eu defnyddio i ddiddanu, i ysbrydoli cred, i ysgogi pobl, i gofnodi bywyd, i gyfathrebu athrawiaethau, i groesi ffiniau diwylliannol, i herio delfrydau a dderbynnir, ac i ofyn cwestiynau sylfaenol am y syniad o fodolaeth ei hun. Mae'n parhau i fod yn un o'r gweithgareddau mwyaf swynol, hanfodol ac atyniadol mewn diwylliant dynol heddiw.

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i nodi mecanweithiau adrodd stori a'u defnyddio i ddatblygu eu straeon eu hunain, gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Mae technoleg ddigidol fwy hygyrch a llai costus wedi ei gwneud yn rhatach ac yn haws i gynhyrchu straeon. Mae adrodd stori'n ddigidol hefyd yn rhan o gelf a dylunio cyfoes. Gwnaeth technoleg ddigidol waith storiwyr yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach, ac efallai'n fwy rhyngweithiol, mewn ffurfiau amrywiol, drwy'r rhyngrwyd.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn dysgu sut i lunio stori, i gynllunio eu cynhyrchiad ac i recordio deunydd gweledol a sain. Byddant yn ystyried confensiynau adrodd straeon megis naratif a gwneud penderfyniadau ar sut y maent yn mynd i adrodd eu stori. Byddant yn dysgu am dechnolegau, prosesau ac offer digidol gwahanol megis camerâu, offer a meddalwedd. Anogir dysgwyr i gynhyrchu stori ddeinamig a chyffrous gan ddefnyddio technoleg ddigidol, ac i archwilio'r posibilïadau yn y cyfrwng hwn.

Addysgir dysgwyr sut i drin y deunydd sain a gweledol a recordiwyd ganddynt yn y cyfnod ôl-gynhyrchu. Byddant yn rheoli eu prosiectau trwy drefnu cynlluniau prosiectau, rheoli gosodiadau, enwi ffeiliau'n briodol a defnyddio llinellau amser. Byddant hefyd yn archwilio agweddau ar dechnegau trin delwedd a sain gan ddefnyddio agweddau gwahanol ar y meddalwedd golygu neu ôl-gynhyrchu. Wrth iddynt weithio trwy'r broses o lunio eu stori, byddant yn gallu cyfeirio'n ôl at eu bwriadau gwreiddiol, a chael cipolwg gwerthfawr ar eu harferion gwaith.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu cynllunio stori ddigidol
- 2 Gallu cynhyrchu deunydd clywedol a gweledol
- 3 Gallu trin a datblygu deunydd clywedol a gweledol
- 4 Gallu cynhyrchu stori ddigidol orffenedig.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gallu cynllunio stori ddigidol

*Mecanwaith*: ffurfiau e.e. naratif, an-naratif, llinol, an-llinol, cyfosodiad, person cyntaf, trydydd person; datblygu e.e. arcau storiol, cymeriad, pwnc, sefyllfa; cynrychiolaeth; cyd-destun

*Syniadau storiol*: e.e. themâu, pynciau, cymeriadau, plotiau, syniadau, addasiadau, sylwebaeth, strwythur

*Cynllunio*: e.e. ysgrifennu, briff wedi'i gynhyrchu eu hunain, dadansoddi, rheoli prosiectau, tasgau, amserlen, rolau, gwaith grŵp, sgriptio, byrddau stori

*Ymchwil o ffynonellau cynradd*: e.e. byd naturiol, amgylcheddau, ffigur dynol, peiriannau, pensaernïaeth, tu mewn, perfformiadau theatr

*Ymchwil o ffynonellau eilaidd*: e.e. llyfrau, ffilmiau, delweddau symudol, delweddau llonydd, animeiddiadau, amgueddfeydd, casgliadau, y rhyngrwyd, cardiau post, cylchgronau, barddoniaeth, cerddoriaeth, diwylliant poblogaidd

## 2 Gallu cynhyrchu deunydd clywedol a gweledol

*Deunydd sain a gweledol*: e.e. ar sail darluniau, cyfryngau lens, offer, delweddau llonydd, delweddau symudol, deunydd gludwaith, deunydd a ganfyddir, trac sain a gomisiynwyd, naratif, darlenniadau, musique concrète, effeithiau sain, sain a samplwyd

*Recordio deunydd*: e.e. sganio, ffilmio digidol, animeiddio stop-symud, golygu yn y camera, delweddau lens llonydd, offer recordio sain, recordydd sain digidol, microffon gosod, teledu cylch cyfyng, mewnfario delweddau, cipluniau, ffilmiau ar y rhyngrwyd, deunydd heb hawlfraint, gwe-gamera, delweddau ffôn symudol

## 3 Gallu trin a datblygu deunydd clywedol a gweledol

*Defnyddio offer*: mewnfario e.e. sain, fideo; trefnu e.e. labelu clipiau, ffolderi prosiect, confensiynau enwi, gosodiadau prosiect; defnyddio perifferolion; dyfeisiadau storio allanol

*Trin a datblygu deunydd sain a gweledol*: golygu e.e. fideo, sain, amseru, cyflymder, trin delweddau, effeithiau cefndir, effeithiau symud, ffilteri, trawsnewidiadau, teitlau; trefnu; cydamseru e.e. sylwebaeth wedi'i sgriptio, gweithredu, gweledol; datblygu e.e. adolygu, prawf sgrin, adborth, mireinio syniadau, addasu syniadau; meddalwedd e.e. Photoshop, PhotoImpact, Lightroom, Aperture, Premiere Pro, Final Cut Pro, iMovie, Cool Edit Pro, Pro-Tools, After Effects, Apple Motion, Pinnacle Liquid, Adobe Flash

*Fformatau*: e.e. cywasgu ffeiliau, QuickTime, AVI, Ffrwd DV, AVCHD, TIFF, JPEG, WAV, AIFF, MPEG2, MPEG4, H.264, PAL, NTSC, ffrydio ar y we, podledu, iPhone, PDA, BlackBerry, dyfais law

#### 4 **Gallu cynhyrchu stori ddigidol orffenedig**

*Cynhyrchu stori ddigidol:* e.e. dewis fformat (ar y sgrin, tafluniad, print), llosgi DVD, llwytho i fyny, paratoi ffeiliau i'w gweld ar ddyfeisiau gwahanol, addasrwydd, pwrpas penodol, cynulleidfa, rheoli goleuadau, effaith weledol; elfennau ffurfiol (llinell, lliw, cyferbyniad, patrwm, siâp), nodweddion sain, ymateb y gynulleidfa



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd pasio'n disgrifio'r lefel cyrhaeddiad sydd ei hangen i basio'r uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> cynllunio stori ddigidol [YA; MC; CE]	<b>T1</b> cynllunio a datblygu stori ddigidol gydlynol	<b>Rh1</b> cynllunio a datblygu stori ddigidol gymhleth a gwreiddiol
<b>LI2</b> cynhyrchu deunydd sain a gweledol [HR]	<b>T2</b> cynhyrchu deunydd sain a gweledol yn effeithiol ac yn gyson	<b>Rh2</b> cynhyrchu deunydd sain a gweledol amrywiol yn annibynnol
<b>LI3</b> trin a datblygu deunydd sain a gweledol [MC; HR]	<b>T3</b> trin a datblygu deunydd sain a gweledol gyda phwrpas ac effaith	<b>Rh3</b> trin a datblygu deunydd sain a gweledol yn flaengar
<b>LI4</b> trin a datblygu deunydd sain a gweledol [MC; HR]	<b>T4</b> cynhyrchu stori ddigidol orffenedig effeithiol yn fedrus	<b>Rh4</b> cynhyrchu stori ddigidol wreiddiol ac atyniadol yn annibynnol

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 48: Gwneud Delweddau Naratif

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>J/502/5257</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o waith delwedd naratif sy'n bodoli eisoes a'u galluogi i ddatblygu sgiliau wrth greu eu delweddau naratif eu hunain gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

## Cyflwyniad yr uned

Rhaid i ddylunwyr graffig ddeall a defnyddio delweddau mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Mae creu delweddau graffig naratif yn gofyn am ddealltwriaeth arbennig o'r ffordd y defnyddir delweddau graffig i gyfathrebu neges neu i adrodd stori. Gall fod yn un ddelwedd unigol, megis llun a anfonwyd yn ôl o barth rhyfel, neu'n gyfres o gannoedd o ddelweddau fel bwrdd stori i ffilm. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys darluniau llyfrau a chylchgronau, comics, hysbysebion ar y stryd a'r teledu, teitlau ffilm a theledu, cartwnau fideo a phapur newydd.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn ymchwilio i amrywiaeth o ddelweddau naratif, gan gynnwys darluniau llyfrau a chartwnau dychanol y 19eg ganrif, montage ffotograffig propagandaidd yr Ail Ryfel Byd, ffilmiau mud, Film Noir, animeiddio Manga a hysbysebion aml-gyfrwng. Bydd dysgwyr yn archwilio rhai o'r prosesau a ddefnyddir wrth greu delweddau naratif gan ddefnyddio cyfryngau darluniadol a digidol i greu delweddau naratif unigol a dilyniannol. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu amrywiaeth o ddelweddau naratif mewn ymateb i themâu a roddir, a byddant yn cynhyrchu syniadau drwy dasgu syniadau a thrwy waith grŵp.

Mae teithiau maes ac ymweliadau ag orielau a sinemâu yn elfennau hanfodol o'r uned hon gan fod rhaid i ddysgwyr weld cynifer o fathau gwahanol o ddelweddau naratif â phosib, mewn cynifer o wahanol sefyllfaoedd â phosib, er mwyn datblygu'r ddealltwriaeth angenrheidiol i'r math hwn o gyfathrebu gweledol. Bydd hyn wedyn yn bwydo datblygiad eu syniadau eu hunain ar gyfer delweddau naratif.

Bydd dysgwyr hefyd yn edrych ar y ffordd y gall gwaith artistiaid a dylunwyr, mewn cyd-destun hanesyddol a chyfoes, ddylanwadu ar eu gwaith creu delwedd naratif a rhoi hwb pellach i gynhyrchu a datblygu syniadau.

Bydd dysgwyr yn cyflwyno eu delweddau naratif mewn amrywiaeth o ffyrdd. Gall hyn gynnwys cyflwyniadau portffolio o ffotograffiaeth dilyniannol, gwaith darluniadol gosod ar fyrddau arddangos, cyflwyniadau clyweledol ac ar y sgrin.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu ymchwilio i enghreifftiau o ddelweddau naratif
- 2 Deall y prosesau a ddefnyddir i ddarlunio naratif
- 3 Gallu datblygu syniadau ar gyfer delweddau naratif mewn ymateb i themâu a roddir
- 4 Gallu cyflwyno delweddau naratif.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gallu ymchwilio i enghreifftiau o ddelweddau naratif

*Delweddau naratif:* e.e. llyfr, cylchgrawn, darlun, cartwnau papur newydd, cartwnau ar-lein, ffotonewyddiaduraeth, byrddau stori, teitlau ffilm a theledu; cyd-destunau e.e. cyfoes, hanesyddol, gwleidyddol, propaganda, dychanol, llyfrau plant, Manga, ffotonewyddiaduraeth, ffilmiau mud, comics Marvel, nofelau graffig

*Ymchwilio:* ffynonellau ymchwil e.e. llyfrau, monograffau, cyfnodolion, e-bost, blogiau, gwefannau; ymchwil ymarferol e.e. technegau, prosesau, darlunio, peintio, darnau prawf, byrddau stori, cyfod testun a delweddau

## 2 Deall y prosesau a ddefnyddir i ddarlunio naratif

*Darlunio naratif:* nodweddion e.e. priodweddau ffisegol, effeithiau, defnyddiau, cyfyngiadau, potensial creadigol; cyfryngau e.e. darlunio, peintio, gludwaith, gwneud printiau, ffotograffiaeth, cyfryngau cymysg, camerâu, offer fideo, sganwyr, cyfrifiaduron, ar y sgrin, argraffwyr, ffilm aml-gyfrwng, animeiddio cyfrifiadurol, trin delweddau, clyweledol

## 3 Gallu datblygu syniadau ar gyfer delweddau naratif mewn ymateb i themâu a roddir

*Syniadau:* e.e. mapio meddwl, gwaith grŵp; ffynonellau cynradd e.e. teithiau maes, ymweliadau ag orielau, darlunio, peintio, ffotograffiaeth, fideo; ffynonellau eilaidd e.e. y rhyngwyd, llyfrau, cylchgronau, ffilmiau, y teledu; datblygu e.e. byrddau hwyliu, taflenni gwaith, brasluniau bawd, delweddau, gludwaith, torri a gludo; trefnu gwybodaeth e.e. delweddau a ganfyddir, ffotograffau, llythrennu, testun, darluniau

## 4 Gallu cyflwyno delweddau naratif

*Cyflwyno:* e.e. cyflwyniad portffolio, arddangosfa, cyflwyniad seminar; fformat e.e. maquettes gorffenedig, modelau, printiau gosod, arteffactau gosod, ar y sgrin, digidol, clyweledol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> ymchwilio i enghreifftiau perthnasol o ddelweddau naratif [YA]	<b>T1</b> cynnal ymchwiliadau manwl i gyfeirio ymatebion gwneud delweddau naratif	<b>Rh1</b> cyfuno ymchwiliadau a gwerthusiadau manwl â datblygu ymatebion gwneud delweddau naratif blaengar
<b>LI2</b> adolygu'r prosesau a ddefnyddir i ddarlunio naratifau [YA]	<b>T2</b> dadansoddi'r prosesau a ddefnyddir i ddarlunio naratifau	<b>Rh2</b> cyflwyno canlyniadau dychmygus amrywiol sy'n arddangos gwneud delweddau naratif yn fedrus
<b>LI3</b> datblygu syniadau ar gyfer delweddau naratif mewn ymateb i themâu a roddir [MC]	<b>T3</b> datblygu syniadau cydlynol ar gyfer delweddau naratif gan ddefnyddio iaith weledol effeithiol	
<b>LI4</b> cyflwyno delweddau naratif [MC]	<b>T4</b> cyflwyno delweddau naratif wedi'u datrys	

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

# Uned 75: Arlunio o Arsylwi

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>T/502/5514</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sy'n gysylltiedig ag arlunio o arsylwi ac archwilio amrywiaeth o gyfryngau recordio.

## Cyflwyniad yr uned

Mae artistiaid a dylunwyr yn arlunio o arsylwi i ddatblygu sgiliau cofnodi, i ymestyn iaith weledol bersonol ac fel ffordd o archwilio pwnc a syniadau. O fewn yr amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n bodoli o dan 'ymbarél' celf, crefft a dylunio, mae gofyniad cyson i ymarferwyr allu cofnodi pwnc. Gall artistiaid benderfynu cynhyrchu ar sail y gweithgaredd hwn; gall dylunwyr ddefnyddio'r sgiliau hyn i ehangu eu geirfa weledol a defnyddio'r sgiliau arlunio a ddatblygwyd yn y broses i wella cyflwyniad syniadau i gleientiaid. Gellir defnyddio arlunio o arsylwi fel cyfrwng i ymholi ac i ymchwilio, a gall annog meddwl llifol a chyffyrddol. Defnyddiodd artistiaid fel David Hockney a Henri Matisse arlunio o arsylwi fel ffordd annatod o weithio ac o ddatblygu eu hiaith weledol bersonol.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arlunio yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith arsylwadol. Bydd y rhain yn cynnwys technegau gwahanol i ddatblygu cyfansoddiadau, i gyflawni cywirdeb, i archwilio syniadau personol ac i hyfforddi'r llygad. Mae arsylwi'n uniongyrchol yn gofyn am agwedd ganolbwyntiedig at ddefnyddio'r llygad i ymchwilio ffurf y pwnc. Bydd dysgwyr yn ymgymryd â chyfres o weithgareddau i gefnogi hyn, ac yn ehangu'r ystod o bynciau posib i'w dadansoddi.

Gellir defnyddio arlunio hefyd fel cyfrwng hunan-fynegant, a gall dysgwyr ddatblygu gwaith personol sy'n ymestyn arsylwi drwy gyfres o gamau datblygiadol. Gall hyn greu cyfleoedd ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfryngau arlunio, neu ddarparu syniadau y gellir eu cyfieithu i gyfryngau eraill.

## Canlyniadau dysgu

### Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio technegau arsylwi
- 2 Gallu defnyddio technegau a chyfryngau arlunio
- 3 Gallu cynhyrchu gwaith gorffenedig ar sail arlunio o arsylwi
- 4 Deall y defnydd o arlunio o arsylwi.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu defnyddio technegau arsylwi

*Technegau arsylwi:* e.e. mesur, defnyddio graddfeydd, adeiladu, cymharu maint, arlunio ffigur eisteddiad byr, arlunio ffigur eisteddiad hir, arlunio heb edrych ar y dudalen, cofnodi gwead, pwyntiau diflannu, persbectif, persbectif o'r awyr, cyfansoddiad, ffenestri

### 2 Gallu defnyddio technegau a chyfryngau arlunio

*Technegau arlunio:* e.e. llinell, tŏn, cysgodi, blendio, dotwaith, gwneud marciau; cyfansoddiad, llinellau adeiladu, bocsio i fyny, llinellau canol, graddio tonaid, graddio lliw, cyfryngau cymysg

*Cyfryngau:* e.e. pensil, pen, inciau, paent, siarcol, pastel, cyfryngau cymysg, digidol

*Darluniau:* e.e. brasluniau, astudiaethau rhagarweiniol, astudiaethau parhaus, eisteddiadau byr, model bywyd, astudiaethau portread, bywyd llonydd, sefyllfa stiwdio, tu mewn, tirweddau, yr amgylchedd trefol, astudiaethau pensaernïol

### 3 Gallu cynhyrchu gwaith gorffenedig ar sail arlunio o arsylwi

*Gwaith gorffenedig:* wedi'i arsylwi'n llawn e.e. arlunio o fywyd, portreadau, amgylcheddau, tu mewn, gwrthrychau swyddogaethol, peiriannau, bywyd llonydd, tirweddau, trefluniau, pensaernïol, anatomi; wedi'i arsylwi'n rhannol e.e. astudiaeth baratoadol, darlun sylfaen, darlun gweithio, ailystyried, delweddu, ar gyfer gwaith arall

### 4 Deall y defnydd o arlunio o arsylwi

*Y defnydd o arlunio o arsylwi:* gwaith eu hunain e.e. gwerthuso, dadansoddi, adolygu, technegau, llwyddiannau, anawsterau, datrysiadau, adolygiadau, astudiaethau rhagarweiniol, datblygu; cofnodi e.e. anodi, cynlluniau, casgliadau, siwrnal gwaith; cyflwyno e.e. canfyddiadau, cyflwyniad, beirniadaeth grŵp; gwaith eraill: e.e. pwrpas, technegau, prosesau, astudiaethau rhagarweiniol ar gyfer gwaith mwy o faint, ymchwilio; elfennau ffurfiol e.e. ffurf, gwead, wyneb, cyferbyniad, lliw; pwnc e.e. pensaernïaeth, y ffigur, yr amgylchedd, haniaethol



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio technegau arsylwi [MC]	<b>T1</b> dangos defnydd effeithiol o dechnegau arsylwi yn gyson	<b>Rh1</b> dangos defnydd hysbys o dechnegau arsylwi yn annibynnol
<b>LI2</b> defnyddio technegau a chyfryngau arlunio [MC, MC]	<b>T2</b> defnyddio technegau a chyfryngau arlunio amrywiol yn bwrpasol ac yn effeithiol	<b>Rh2</b> defnyddio technegau a chyfryngau arlunio amrywiol yn ddychmygus gyda rheolaeth dechnegol rugl
<b>LI3</b> cynhyrchu gwaith gorffenedig ar sail arlunio o arsylwi [HR]	<b>T3</b> cynhyrchu cyfres gydlynol o waith gorffenedig sy'n arddangos arlunio o arsylwi cyson ac effeithio	<b>Rh3</b> cynhyrchu cyfres gydlynol o waith gorffenedig sy'n arddangos arsylwi craff a blaengar
<b>LI4</b> adolygu arlunio o arsylwi. [YA, DM]	<b>T4</b> dadansoddi arlunio o arsylwi yn bwrpasol	<b>Rh4</b> gwerthuso arlunio o arsylwi yn annibynnol

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 78: Datblygu a Gwireddu Syniadau Celfyddyd Gain

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>J/502/5341</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr wrth ddewis syniadau i'w datblygu. Bydd dysgwyr yn defnyddio ymchwil cychwynnol i gynhyrchu gwaith datblygu creadigol, trwy archwilio cyfuniadau deinamig o gyfryngau, o brosesau, o dechnegau ac o ddeunyddiau gwahanol. Bydd hyn yn sylfaen i adolygiad y dysgwyr o'u harferion gwaith a'u methodolegau.

## Cyflwyniad yr uned

Mae artistiaid cain yn datblygu syniadau a phynciau yn barhaus yn eu gwaith. Mewn llawer o enghreifftiau, mae un thema gyson tra bod y prosesau, y cyfryngau neu'r dulliau cynhyrchu a ddefnyddir yn agored i arbrofi a datblygu egniol. Yn y modd hwn, mae artistiaid cain yn rhan o adolygiad parhaus o'u hallbwn sy'n cyfeirio datblygiadau dilynol.

Gall dysgwyr ddefnyddio syniadau o waith ymchwil cychwynnol a wnaed mewn unedau neu ddarnau o waith ymarferol eraill. Gall hyn fod ar ffurf syniadau heb eu harchwilio, gwaith paratoi, lluniau neu gynlluniau mewn cyfnodolion, neu waith datblygu mewn prosiectau blaenorol. Bydd dysgwyr yn ystyried sut y gellir datblygu'r syniadau, a pha strategaethau y gellir eu defnyddio i alluogi'r broses hon.

Bydd tiwtoriaid yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio amrywiaeth mor eang o bynciau a syniadau ag y bo modd. Bydd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu ymatebion personol mewn cyfrwng o'u dewis o ystod o ddisgyblaethau 2D, 3D, electronig neu seiliedig ar amser.

Cefnogir dysgwyr wrth ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gynnal adolygiad parhaus effeithiol o'u syniadau a'u harferion gwaith. Wrth adolygu'r arferion hyn, dylent ddod i ddeall sut i atgyfnerthu eu syniadau ac i fireinio cwmpas gwreiddiol syniadau i'w datblygu, a'u defnydd o ddeunyddiau a phrosesau. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth iddynt am eu datblygiad personol y gellir ei defnyddio mewn unedau eraill yn ymwneud â gwaith ymarferol.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu dewis syniadau a phynciau o ymchwil cychwynnol
- 2 Gallu creu gwaith datblygiadol mewn celfyddyd gain
- 3 Deall syniadau ac arferion gwaith.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gallu dewis syniadau a phynciau o ymchwil cychwynnol

*Dewis syniadau:* themâu personol e.e. materion amgylcheddol, cynaliadwyedd, deunyddiau wedi'u hailgylchu; gwaith 2D ar y gweill e.e. arlunio, peintio, cyfryngau cymysg, gwneud printiau, a gynhyrchir gan gyfrifiadur, lens; gwaith 3D ar y gweill e.e. cerflunio, gosod, darluniau, lens, a gynhyrchir gan gyfrifiadur; gwaith sy'n seiliedig ar amser ar y gweill e.e. darluniau, byrddau stori, rhyngweithiol, clyweledol, lens, a gynhyrchir gan gyfrifiadur

*Ymchwil cychwynnol:* e.e. eu gwaith celf eu hunain, syniadau a gynhyrchwyd, gwaith blaenorol, gwaith paratoi, cyfnodolion, ymchwil blaenorol

### 2 Gallu creu gwaith datblygiadol mewn celfyddyd gain

*Gwaith datblygiadol:* gwaith archwiliadol e.e. cyfryngau, cyfuniadau, elfennau ffurfiol (lliw, tôn, gwead, siâp, cyfansoddiad, patrwm, persbectif, llinell, pwysau, cydbwysedd, màs, ffurf, strwythur); syniadau; pynciau; gwneud cysylltiadau

### 3 Deall syniadau yn arferion gwaith eu hunain

*Adolygu:* e.e. archwilio, addasrwydd at y diben, dadansoddi, cryfderau, meysydd i'w datblygu

*Arferion gwaith:* e.e. dwyn ynghyd, syniadau, pynciau, arferion gwaith, delweddau, elfennau ffurfiol, cyfryngau, technegau, prosesau

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dewis syniadau a phynciau o ymchwil cychwynnol [YA]	<b>T1</b> dewis a chymharu syniadau a phynciau amrywiol o ymchwil cychwynnol	<b>Rh1</b> dewis syniadau a phynciau amrywiol yn annibynnol o ymchwil cychwynnol, gan eu hintegreiddio i'w gwaith eu hunain
<b>LI2</b> creu gwaith datblygiadol o fewn arbenigedd celfyddyd gain [MC]	<b>T2</b> dangos cysondeb o ran datblygu gwaith gweledol trwy arbrofi effeithiol gydag ystod o gyfryngau sy'n cysylltu i syniadau a phynciau	<b>Rh2</b> dangos annibyniaeth a dawn wrth ddatblygu gwaith gwreiddiol a chyffrous sy'n archwilio ystod cynhwysfawr o gyfryngau
<b>LI3</b> adolygu syniadau ac arferion gwaith [DM]	<b>T3</b> dadansoddi syniadau ac arferion gwaith i gyfeirio gwaith parhaus	<b>Rh3</b> gwerthuso syniadau ac arferion gwaith i gyfeirio ac i atgyfnerthu gwaith ac arfer parhaus

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned 80:

# Peintio mewn Celfyddyd Gain

**Cod yr Uned:**

**H/502/4987**

**FfCCH Lefel 3:**

**Tystysgrif Genedlaethol BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

## Nod a phwrpas

Mae artistiaid cain yn defnyddio peintio i gyfleu syniadau, teimladau, ymatebion a bwriadau. Mae hyblygrwydd y cyfrwng yn golygu y gall dderbyn triniaeth a chyfeiriad gan artist, gan ganiatáu ystod eang o ddefnyddiau o gynrychiolaeth naturiolaid a 'gor-realaeth' i'r hunan-fynegiant di-ffigurool ehangaf.

Gall tiwtoriaid ymgysylltu â dysgwyr gyda gwaith artistiaid drwy ymweliadau ag amgueddfeydd neu orielau, neu drwy ymchwil cyffredinol. Dylai dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella eu dealltwriaeth o dechnegau peintio ymhellach, a sut y gellid defnyddio'r rhain yn eu harfer eu hunain.

Fel ym maes peintio celfyddyd gain, bydd dysgwyr yn gallu dewis deunyddiau a phrosesau addas i'w cyfuno yn eu gwaith terfynol. Bydd y tiwtor yn helpu gyda'r dewis, er y dylai fod cyfle i ddysgwyr deimlo cymhelliant ac ysbrydoliaeth i ddatblygu themâu personol ac i arbrofi gydag amrywiaeth mor eang â phosib o gyfryngau. Daw'r uned i ben gan gyflwyno'r corff o waith a gynhyrchwyd. Dylid dangos technegau mowntio a fframio i ddysgwyr lle bo'n briodol, gan roi gwybod iddynt sut i gyflwyno arddangosfa o'u gwaith yn ôl yr angen. Dylai dysgwyr hefyd allu trafod eu cynnydd drwy'r uned, y gwaith y maent wedi'i gynhyrchu a'u hymatebion personol i'w hymchwiliadau, fel a grynhowyd yn y gwaith gorffenedig. Dylai dysgwyr ddeall yn glir y posibilrwydd o'u gwerthusiad yn cyfeirio eu cyflwyniad terfynol.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am dechnegau peintio
- 2 Gallu ymchwilio ac archwilio cyfryngau a deunyddiau
- 3 Gallu cyfuno cyfryngau, deunyddiau a thechnegau
- 4 Gallu cyflwyno gwaith gorffenedig.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am dechnegau peintio

*Technegau peintio:* e.e. brwsh gwlyb a sych, tanbeintiad, golchiadau, grisaille, gwydro, sgymblo, impasto, gwead, gwlyb i wlyb, alla prima, sgraffito, ffroteisio, ymyl caled, masgio, dotwaith, brwsh aer, cymysgu, lliw toredig, trosglwyddo, graddio i fyny, digidol

### 2 Gallu ymchwilio ac archwilio cyfryngau a deunyddiau

*Ymchwilio ac archwilio:* priodweddau e.e. gwanediad, ymarferoldeb, amser sychu, cryfder lliwio, sefydlogrwydd lliw, samplau, trin; profi

*Cyfryngau:* inciau; gouache; dyfrlliw; olew; acrylig; cwyr; cyfryngau cymysg; cyfryngau anhraddodiadol e.e. llathryddion, resinau, paent diwydiannol, digidol

*Deunyddiau:* cynalyddion, deunyddiau caled e.e. cerdyn, pren, bwrdd ffibr dwysedd canolig (MDF), persbecs, finyl, deunyddiau wedi'u hailgylchu, gwydr; deunyddiau meddal e.e. cynfas, brethyn, ffabrigau cymysg, papurau; deunyddiau a ganfyddir

### 3 Gallu cyfuno cyfryngau, deunyddiau a thechnegau

*Cyfuno:* e.e. gwydro, gwead, troshaenu, delweddau, ymlyniad, gosod, haenu, gludwaith

*Cyfryngau a deunyddiau:* ffotograffig, printiau, deunyddiau printiedig, peintiau preimio, inciau, pren, metel, plastig, persbecs, cerdyn, cyfrwng e.e. acrylig, olew, gwm arabig

*Technegau:* paent rheoli; 'brwsh wedi torri'; cymysgu lliwiau, technegau troshaenu; prosesau peintio e.e. golau i dywyll mewn peintio dyfrlliw, ysgafn i dew mewn peintio olew, gwydro acrylig

### 4 Gallu cyflwyno gwaith gorffenedig

*Adolygu:* technegau; effeithiau gweledol a gyflawnwyd; syniadau e.e. themâu (harmoni, anghytgord), cyfosodiad, cydrannau, cyfansoddiad

*Gwaith gorffenedig:* darn(au) gorffenedig e.e. unigol, cyfres, gosodiad; portffolio; arddangos e.e. gosod, fframio

*Cyflwyno:* e.e. fforymau, unigol, cyflwyniadau grŵp, beirniadaeth, seminarau; cynulleidfa e.e. cydweithwyr, cyfoedion, cleientiaid, tiwtoriaid

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi technegau peintio [YA]	<b>T1</b> disgrifio technegau peintio amrywiol	<b>Rh1</b> defnyddio gwybodaeth am dechnegau peintio yn eu gwaith eu hunain
<b>LI2</b> cynnal ymchwiliadau ymarferol i gyfryngau a deunyddiau peintio [YA]	<b>T2</b> arbrofi gyda deunyddiau a chyfryngau amrywiol yn bwrpasol drwy archwilio, ymchwilio a chyfuno	<b>Rh2</b> mireinio dewis, ymchwilio, archwilio a chyfuno deunyddiau a chyfryngau i gynhyrchu peintiad cyffrous a gwreiddiol
<b>LI3</b> cynhyrchu gwaith sy'n cyfuno cyfryngau, defnyddiau a thechnegau [MC]	<b>T3</b> cynhyrchu gwaith ystyriol sy'n arddangos cyfuniad cydlynol ac effeithiol o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau	<b>Rh3</b> cynhyrchu corff soffistigedig o waith sy'n cyfuno cyfryngau, defnyddiau a thechnegau yn ddychmygus
<b>LI4</b> creu adolygiad o waith gorffenedig [DM]	<b>T4</b> barnu eu gwaith eu hunain yn ystyriol	<b>Rh4</b> defnyddio dadansoddiad dychmygus a threiddgar wrth lunio barn ar eu gwaith eu hunain
<b>LI5</b> cyflwyno gwaith gorffenedig [HR]	<b>T5</b> cynhyrchu cyflwyniad cydlynol o waith gorffenedig	<b>Rh5</b> cynhyrchu cyflwyniad dychmygus a pherswadiol o waith gorffenedig

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned 89: Datblygu a Gwireddu Syniadau Crefft Dylunio

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>F/502/5354</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i greu amrywiaeth o waith 2D a 3D yn ymwneud ag ymarfer crefft dylunio cyfoes. Bydd y ffocws ar y broses ddylunio gyfan, o waith ymchwil i gynhyrchu syniadau i greu darnau gorffenedig.

## Cyflwyniad yr uned

Bydd yr uned hon yn cynnwys casglu ac astudio gwybodaeth weledol sy'n ymwneud â gwaith crefftwyr. Bydd hyn yn ennyn diddordeb dysgwyr wrth ddewis a chasglu gwybodaeth am grefftau megis cerameg, crochenwaith, dylunio a chreu dodrefn, gwaith gefail, sbotweldio, gwydr a ffurfiwyd mewn odyn, gemwaith, cyfryngau cymysg, tecstilau wedi'u cynhyrchu a'u hargraffu, gwehyddu a cherfio carreg neu bren.

Gall artistiaid a chrefftwyr weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan wneud darnau unigol o waith llaw neu gynhyrchu mewn sypiau bach, gan weithio mewn stiwdios, gweithdai neu ffatrioedd. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i weithgareddau crefft yn eu hardal drwy ymweld ag orielau, arddangosfeydd, marchnadoedd, gwyliau, ffeiriau crefft a mannau busnes lleol lle bo modd. Mae lleoliadau treftadaeth a thwristiaeth yn aml yn arddangos gwaith crefft lleol. Gall dysgwyr gael ysbrydoliaeth o'r amrywiaeth o nwyddau dethol a arddangosir - er enghraifft, crochenwaith, gemwaith, cynhwysyddion wedi'u peintio, cardiau a phapurau wedi'u haddurno.

Caiff archwilio ac arbrofi mewn sgiliau gwneud crefftau eu meithrin trwy ddefnyddio aseiniadau thematig penagored. Bydd datblygu a gwireddu syniadau yn ymwneud yn uniongyrchol ag ansawdd y gwaith ymchwil ac argaeledd deunyddiau ac offer arbenigol. Bydd rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwrpas; p'un ai i ddatblygu ffurfiau addurniadol yn unig, neu wrthrychau gyda swyddogaethau ymarferol sy'n ymateb i nodau clir a nodir mewn prosiect neu brosiectau dylunio a chrefft. Gall dysgwyr ddatblygu eu syniadau, gan ymhelaethu ar themâu ar bapur gan wneud samplau prawf bach a maquettes, gan arwain at ddarnau crefft gorffenedig. Yn ogystal â defnyddio cyfryngau crefft 2D a 3D traddodiadol, gellir ymchwilio i'r cyfle i ddefnyddio deunyddiau wedi'u taflu a gwrthrychau cyffredin bob

dydd. Mae'n ddefnyddiol ystyried beth sydd ar gael wrth weithredu ar gyllideb dynn. Gellir trawsnewid y deunyddiau hyn yn wrthrychau crefft diddorol trwy ailgylchu'n greadigol.

Gall dysgwyr hefyd elwa ar ymweliadau gan grefftwyr lleol i'r ganolfan neu gyfleoedd i weld stiwdios neu weithdai agored, os ydynt ar gael. Mae'r gwneuthurwyr yn aml yn awyddus i siarad am sut y maent yn datblygu ac yn gwireddu eu syniadau, gan fod rhaid iddynt fod yn ddigon hyderus i werthu eu gwaith i siopau, i orielau ac i'r cyhoedd.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu cynnal gwaith ymchwil ar grefftau dylunio i gyfeirio datblygu syniad
- 2 Gallu cynhyrchu datrysiadau dylunio crefft
- 3 Deall dulliau gweithio a chanlyniadau dylunio crefft.

## Cynnwys yr Uned

---

### 1 Gallu cynnal gwaith ymchwil ar grefftau dylunio i gyfeirio datblygu syniad

*Ffynonellau cynradd:* darluniau o fywyd e.e. cofnodi siapiau, lliwiau, gwedd, patrymau; casys hadau, cregyn, darnau archeolegol, broc môr, carreg wedi erydu; nodweddion tirweddol; môr, tywod, crychdonnau ac adlewyrchiadau; arddangosion o gasgliadau amgueddfeydd; amgylchedd adeiledig e.e. nodweddion pensaernïol mewn trefi a dinasoedd; systemau trafndiaeth; lleoliadau diwydiannol; arwyddion stryd a symbolau

*Ffynonellau eilaidd:* e.e. llyfrau, cylchgronau, ffotograffau, gwefannau, fideos

### 2 Gallu cynhyrchu datrysiadau dylunio crefftau

*Nodweddion a phriodweddau:* e.e. cryfder cywasgu a thensiwn, gwydnwch, sefydlogrwydd, pwysau, dwysedd, hydrinedd, gwedd arwynebol, adlewyrchol, amsugol, patina, tryloyw, di-draidd

*Technegau arlunio a modelu:* e.e. darluniau dyfaliadol, darluniau technegol, taflenni dylunio, maquettes 3D a phrototeipiau

*Elfennau ffurfiol:* e.e. lliw, gwedd, tôn, siâp, patrwm, llinell, pwysau, cydbwysedd, màs, ffurf, strwythur, graddfa

*Egwyddorion dylunio:* e.e. estheteg, ergonomeg, swyddogaeth, cyd-destun

### 3 Deall dulliau gweithio a chanlyniadau dylunio crefft

*Gwerthuso:* effeithiolrwydd elfennau unigol y prosiect; datblygu dylunio; canlyniad yn erbyn disgwyliadau; nodi cryfderau a gwendidau; lefel llwyddiant a photensial elfennau unigol; dewis o ddeunyddiau; ymarferoldeb; ffurf ac estheteg; effeithiolrwydd offer, technegau a phrosesau yn erbyn canlyniadau

*Cofnodi gwelliannau:* e.e. nodiadau ysgrifenedig, rhestrau, cofnodion technegol; nodiadau gweledol e.e. brasluniau anodedig, darluniau technegol, gludwaith, ffotograffau, recordiadau fideo

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> cynnal a chofnodi gwaith ymchwil [YA]	<b>T1</b> dewis syniadau a phynciau yn effeithiol o ymchwil pwrpasol	<b>Rh1</b> dangos ymagwedd ddadansoddol annibynnol wrth ddewis syniadau a phynciau o ymchwil gynhwysfawr
<b>LI2</b> datblygu syniadau ar gyfer canlyniadau dylunio crefftau [YA, MC]	<b>T2</b> datblygu syniadau yn gyson ar gyfer canlyniadau dylunio crefftau effeithiol	<b>Rh2</b> datblygu syniadau soffistigedig yn annibynnol ar gyfer canlyniadau dylunio crefftau
<b>LI3</b> cynhyrchu canlyniadau dylunio crefftau [MC]	<b>T3</b> cynhyrchu datrysiadau dylunio effeithiol ac ystyriol	<b>Rh3</b> cynhyrchu datrysiadau dylunio cynhwysfawr, soffistigedig a chreadigol
<b>LI4</b> adolygu dulliau gweithio a chanlyniadau dylunio crefft [DM]	<b>T4</b> dadansoddi a gwerthuso dulliau gweithio a chanlyniadau dylunio crefft yn effeithiol	<b>Rh4</b> dangos ymagwedd annibynnol at ddadansoddi a gwerthuso dulliau gweithio a chanlyniadau dylunio crefft, gan ddod i gasgliadau soffistigedig



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 90: Cyfryngau, Technegau a Thechnoleg Dylunio 3D

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>R/502/5262</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, y ddealltwriaeth a'r wybodaeth o weithio gydag amrywiaeth o ddeunyddiau 3D er mwyn llawn wireddu potensial eu syniadau.

## Cyflwyniad yr uned

Mae dylunwyr, gwneuthurwyr a chrefftwyr yn archwilio syniadau tri dimensiwn (3D) trwy drin amrywiaeth o gyfryngau a deunyddiau wrth ymateb i friffiau a roddir neu hunan-ddiffiniedig. Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddylunio 3D ac i ymarfer defnyddio rhai o'r deunyddiau, y dechnoleg a'r technegau sy'n gysylltiedig â gweithio 3D. Byddant yn ymchwilio i drin deunyddiau gwahanol a thechnegau creu priodol. Gall dysgwyr ddewis archwilio amrywiaeth eang o ddeunyddiau neu ganolbwyntio ar faes arbenigol megis cerameg, dylunio cynnyrch, gemwaith, dylunio mewmol neu ofodol, neu wneud modelau. Gall y technegau a'r technolegau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn gynnwys offer a chyfarpar llaw, offer a pheiriannau pŵer a defnyddio cyfrifiaduron. Byddant yn dysgu sut y gall Dylunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD) gynorthwyo drafftio a darlunio technegol rhannau, cynnyrch, strwythurau, gofod ac adeiladau.

Bydd dysgwyr yn dysgu am y materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r deunyddiau a ddefnyddir a'r technegau sy'n ymwneud â'u trin. Dylid dilyn y canllawiau COSHH priodol bob amser.

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod nodweddion a phriodweddau perthnasol deunyddiau 3D amrywiol. Gall hyn fod drwy gyfres o samplau a darnau prawf, llyfrau brasluniau anodedig, neu adolygu a gwerthuso gwrthrychau gorffenedig. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i bwysigrwydd dewis a defnyddio deunyddiau a thechnegau gwneud priodol yn y broses o ddatblygu a gwireddu syniadau dylunio 3D.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r gallu i werthuso eu defnydd o ddeunyddiau a phrosesau yn effeithiol. Gallai'r gwerthusiad hwn fod ar ffurf darn ysgrifenedig mewn cyfnodolyn gwaith neu gofnodion llyfr braslunio. Gall gynnwys gweithio i fodel ymarfer myfyriol rhagnodedig. Bydd dysgwyr yn dangos sut mae gwerthuso a myfyrio yn tanategu ac yn cyfeirio darluniau gweledol sy'n dangos yn glir sut mae'r dysgwr wedi symud drwy gyfres o ddeunyddiau neu brosesau.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am nodweddion a phriodweddau deunyddiau 3D
- 2 Gallu ymchwilio i gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D
- 3 Gallu defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg 3D yn ddiogel
- 4 Deall eu defnydd eu hunain o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gwybod am nodweddion a phriodweddau deunyddiau 3D

*Ymchwilio i weithio gydag amrywiaeth o ddeunyddiau:* clai e.e. llestri pridd, crochenwaith caled, porslen, slip, ocsidau, staeniau, gwydreddau; pren e.e. byrddau a weithgynhyrchir, pren meddal, pren caled, pren balsa; metelau e.e. copr, pres, tun, sinc, alwminiwm, metelau gwyn 'newydd', aloeon, cwyr ar gyfer modelu, castio colli cwyr; plastr e.e. modelu, gwneud mowldiau; plastigau e.e. persbecs, acrylig, polymerau, resinau polyester, dalen blastig, gwneud modelau, prototeipiau, argraffu 3D; deunyddiau eraill e.e. cerdyn, papur, llinyn, asetad, gwifren feddal, gludion, gludyddion, toddyddion

## 2 Gallu ymchwilio i gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D

*Technegau gwneud:* cerameg e.e. adeiladu slabiau, torchi, taflu, addurno clai gwlyb a gwydreddau; gemwaith e.e. sodro, llathru, gosod, edafu, troelli, enamlo, addurno; dylunio cynnyrch e.e. torri, llifio, sandio, cerfio, modelu, plygu, ffurfio gwactod, uno, gorffennu, peintio, technegau 3D digidol; pensaernïol e.e. gofodol, ffurfiau, modelu, 3D digidol

*Prosesau:* technoleg e.e. offer llaw, offer pŵer, peiriannau, cyfrifiaduron (modelu 3D, Dylunio drwy Gymorth Cyfrifiadur (CAD)), rhagamcaniad orthograffig, darluniau gweithio, storio, cynrychioliadau 3D, delweddau wedi'u rendro

## 3 Gallu defnyddio cyfryngau, deunyddiau a thechnoleg 3D yn ddiogel

*Deddfwriaeth sy'n effeithio ar arfer yn y gweithdy ac yn y stiwdio:* Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 1994; Rheoliadau Offer Amddiffyn Personol y Gwaith 1992; Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1992

## 4 Deall eu defnydd eu hunain o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D

*Defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg 3D:* dadansoddi a myfyrio ar arbrofi gyda deunyddiau a phrosesau e.e. darnau ysgrifenedig mewn cyfnodolyn gwaith, cofnodion llyfr braslunio, cofnodion gweledol anodedig, gweithio i fodel ymarfer myfyriol rhagnodedig; dangos cynnydd gweithio'n glir trwy gyfres o ddeunyddiau neu brosesau

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio nodweddion a phriodweddau deunyddiau 3D [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T1</b> disgrifio nodweddion a phriodweddau deunyddiau 3D amrywiol	<b>Rh1</b> disgrifio nodweddion a phriodweddau amrywiaeth gynhwysfawr o ddeunyddiau 3D yn fanwl a chyda'r derminoleg gywir
<b>LI2</b> ymchwilio i gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T2</b> ymchwilio'n effeithiol i amrywiaeth eang o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D	<b>Rh2</b> ymchwilio'n annibynnol i amrywiaeth gynhwysfawr o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D
<b>LI3</b> defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg 3D yn ddiogel [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T3</b> defnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D yn gydlynol	<b>Rh3</b> defnyddio amrywiaeth gynhwysfawr o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D yn flaengar
<b>LI4</b> trafod eu defnydd eu hunain o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T4</b> dadansoddi eu defnydd eu hunain o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D	<b>Rh4</b> gwerthuso eu defnydd eu hunain o gyfryngau, technegau a thechnoleg 3D

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol





# Uned 97: Dylunio Cynnyrch

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>A/502/5515</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth i ddysgwyr o'r broses dylunio cynnyrch, o ddatblygu syniadau cychwynnol i wireddu cynnyrch.

## Cyflwyniad yr uned

Mae dylunydd cynnyrch yn cyfuno sgiliau creadigol a gwybodaeth dechnegol i gynhyrchu canlyniadau dylunio diriaethol. Mae dylunio cynnyrch yn wahanol i ddylunio diwydiannol, sy'n cynnwys ystod ehangach o weithgareddau dylunio a pheirianneg. Cynorthwywyd ymarfer dylunio cynnyrch gan ddatblygiad meddalwedd ac offer digidol newydd sy'n caniatáu delweddau 2D a modelau 3D deinamig a realistig, dadansoddi syniadau a chysyniadau yn effeithiol a chyfathrebu gwell o fewn amserlen prosiect cywasgedig realistig. Mae hyn o fudd i'r dylunydd, i reolwr y stiwdio dylunio, i'r gwneuthurwr, i farchnatwr y cynnyrch, ac yn bwysicach na neb arall, i'r cleient! Bydd dysgwyr yn darganfod mai dylunio cynnyrch yw cam cychwynnol unrhyw gynnyrch ffisegol o unrhyw fath. Byddant yn dysgu beth yw ystyr dylunio cynnyrch da i ddefnyddiwr byd-eang yn yr ymgyrch barhaus am flaengaredd, hwylustod, cynaliadwyedd a chynnydd cyffredinol.

Cyflwynir dysgwyr i'r broses o ddylunio cynnyrch, sy'n cynnwys y briff dylunio, cynhyrchu syniadau, dylunio a datblygu cysyniad, dadansoddi, profi, adolygu a gwireddu dyluniad.

Byddant yn dysgu am yr amrywiaeth o weithgareddau a chamau sy'n rhan o ddylunio cynnyrch a'r amrywiaeth o sgiliau esthetig, creadigol a thechnegol angenrheidiol i gyflawni'r cam cyntaf hwn o gylich gwaith a allai fod yn ehangach ar gyfer ymchwilio, datblygu, cynllunio strategol a dylunio cynnyrch/diwydiannol ar gyfer cynhyrchu.

Byddant yn deall nodweddion pwysig eraill o ddylunio cynnyrch h.y. blaengaredd, ymholi strategol, marchnata, cynhyrchu a bod yn ymwybodol bod dylunio da'n bodoli ar y cyd â chyfathrebu da, cyflwyno proffesiynol ac ymarfer myfyriol.

Gellir diffinio dylunio cynnyrch fel creu pob math o nwyddau neu wrthrychau tri dimensiwn, a fydd yn y pen draw yn cael eu hyrwyddo a'u dosbarthu drwy'r farchnad fasnachol.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Deall briff dylunio cynnyrch
- 2 Gwybod sut i gyfleu syniadau a chysyniadau dylunio cynnyrch
- 3 Gallu datblygu cynigion dylunio cynnyrch
- 4 Gallu gwireddu canlyniadau i friff dylunio.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Deall briff dylunio cynnyrch

*Dadansoddiad:* e.e. sefydlu paramedrau briffio, sefydlu gofynion a chyfyngiadau penodol, trafod a phenderfynu ar ddiffiniadau

*Asesu:* unrhyw feysydd amwys, meini prawf esthetig ac ymarferol

*Trafod:* unrhyw ddiwygiadau i gytuno ar ddiffiniadau briffio

## 2 Gwybod sut i gyfleu syniadau a chysyniadau dylunio cynnyrch

*Ffynhonnell:* arddulliau gweledol eraill, confensiynau, braslunio, modelu

*Ymchwilio a datblygu syniadau:* e.e. ymchwil berthnasol, enghreifftiau masnachol, cofnodi syniadau, nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, modelau cysyniadol, addasu syniadau, ystyried deunyddiau eraill, newidiadau esthetig, newidiadau ffisegol, cynhyrchu modelau arbrofol neu raddfa

*Cofnodi:* syniadau, nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, modelau cysyniadol, ystyried deunyddiau, estheteg

## 3 Gallu datblygu cynigion dylunio cynnyrch

*Cyfathrebu gweledol:* e.e. drafftio dyluniadau dylunio drwy gymorth cyfrifiadur 2D (CAD), dyluniadau technegol â llaw, persbectif a chysyniadol, graddfa ffisegol a chyfrifiadurol 3D, cysyniad a modelau mynegiannol

*Dadansoddi a gwerthuso parhaus:* ystyried gofynion, cyfyngiadau a diffiniadau penodol; sefydlu dealltwriaeth gyffredin o unrhyw amwysedd; trafod, dewis, gwrthod, datblygu syniadau cychwynnol fel y bo'n briodol; cynnig, gweithredu diwygiadau

*Adolygu:* e.e. cyflwyniad cyfnodol ar gyfer ymgynghori â chleientiaid, defnyddwyr terfynol, grwpiau sydd â diddordeb, cydweithwyr, gwirio cynnydd yn erbyn llinellau amser y prosiect, monitro adnoddau

## 4 Gallu gwireddu canlyniadau i friff dylunio

*Gweithio'n annibynnol neu ar y cyd:* cydweithio gyda thîm cynnig, gan weithio fel unigolyn i wireddu canlyniadau cynnyrch

*Ymgynghori â'r tîm ac eraill:* ar lafar, gan ddefnyddio iaith briodol, termau proffesiynol, confensiynau (gweledol ac ysgrifenedig), gweithio fel rhan o dîm neu fel unigolyn i gydosod neu gyflwyno canlyniad dylunio arfaethedig

*Methodoleg:* llunio cyfathrebu gweledol a digidol e.e. drafftio dyluniadau dylunio drwy gymorth cyfrifiadur 2D (CAD), dyluniadau technegol â llaw, persbectif a chysyniadol, cynrychioliadau isomedrig, graddfa ffisegol a chyfrifiadurol 3D, cysyniad a modelau mynegiannol, modelu cyfrifiadurol

*Cyflwyno:* e.e. llunio cyflwyniadau proffesiynol, datblygu modelau 3D, graddfa ffisegol a chyfrifiadurol, cysyniad a modelau mynegiannol, cyflwyno i gleientiaid, defnyddwyr terfynol, grwpiau sydd â diddordeb, cydweithwyr

*Strategaeth ar gyfer adolygu:* e.e. gwirio cynnydd yn erbyn llinellau amser y prosiect, monitro adnoddau, dadansoddiad a gwerthusiad ysgrifenedig o ganlyniadau yn erbyn gofynion y briff.

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> esbonio gofynion, paramedrau a chyfyngiadau mewn briff dylunio cynnyrch [YA, MC, GT, HR, CE]	<b>T1</b> dangos cyfathrebu effeithiol 2D, 3D o syniadau a chysyniadau i fodloni gofynion y briff dylunio cynnyrch	<b>Rh1</b> creu canlyniad blaengar, cynaliadwy, esthetig a phriodol ar gyfer y briff dylunio cynnyrch
<b>LI2</b> amlinellu syniadau a chysyniadau drwy gyfathrebu gweledol 2D a 3D [YA, MC, GT, HR, CE]	<b>T2</b> cynnal datblygiad dylunio pwrpasol i wireddu canlyniad terfynol sy'n bodloni gofynion y briff dylunio cynnyrch yn effeithiol	
<b>LI3</b> dangos datblygiad o syniadau a chysyniadau [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T3</b> defnyddio dadansoddi, profi a gwerthuso trwy gydol y prosiect i gynhyrchu canlyniad terfynol sy'n mynd i'r afael â gofynion briffio dylunio'r cynnyrch	
<b>LI4</b> gwireddu canlyniad dylunio cynnyrch yn erbyn briff. [YA, MC, DM, GT, HR, CE]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned 109: Tecstilau Cerfluniol 3D

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>J/502/5484</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned yw datblygu technegau tecstilau cerfluniol 3D creadigol dysgwyr o archwilio ac ymchwilio i nodweddion arwynebol a strwythurau at ddibenion crefft a masnachol. Byddant yn ymchwilio i dulliau ymarferwyr ac yn defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i ddatblygu eu samplau o syniadau dylunio gwreiddiol.

## Cyflwyniad yr uned

Rydym yn byw mewn byd 3D lle mae popeth yn ffitio gyda'i gilydd fel jig-so, o ran uchder, lled a dyfnder. Mae artistiaid tecstilau cyfoes yn ymestyn ac yn archwilio'r defnydd o dechnegau ac offer tecstilau'n barhaus yn eu gwaith. Gyda'r wybodaeth hon, mae archwilio gwaith 3D yn cynnig cyfleoedd a blaengaredd di-ben-draw.

Rhaid i ddysgwyr adolygu gwaith artistiaid tecstilau hanesyddol a chyfoes. Byddant yn archwilio, yn deall ac yn arbrofi gyda'r ffordd y caiff technegau a phrosesau 3D eu defnyddio yng ngwaith yr artistiaid hyn a sut y gellir eu defnyddio yn eu gwaith eu hunain.

Anogir dysgwyr i ddatblygu technegau 3D creadigol sy'n archwilio ac yn ymchwilio i nodweddion arwynebol a strwythurau at ddibenion crefft a masnachol. Byddant yn ymchwilio ac yn datblygu eu samplau o syniadau dylunio gwreiddiol i ffurfio samplau swyddogaethol ac answyddogaethol gan ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd.

Bydd dysgwyr yn gweithio i friffiau penodol er mwyn ymchwilio eu potensial a'u cyfyngiadau creadigol. Trwy ymchwilio ymarferol ym maes tecstilau cerfluniol 3D, byddant yn datblygu syniadau dychmygus. Anogir dysgwyr i ymchwilio i ddefnyddiau cyffrous a dyfeisgar ar gyfer deunyddiau, technegau a phrosesau adeiladu wrth ddatblygu a chreu gwaith cerfluniol.

Bydd rhaid i ddysgwyr werthuso a dadansoddi gwaith ar adegau priodol o'r broses dylunio creadigol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried addasrwydd (a defnydd) cyfuniadau gwahanol wrth ddewis technegau a phrosesau 3D. Anogir dysgwyr i ofyn am farn pobl eraill ac i gymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid a beirniadaethau grŵp.

Bydd rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o ofynion iechyd a diogelwch gan deall arwyddocâd arfer proffesiynol wrth ddatblygu eu gwaith eu hunain. Bydd rhaid iddynt weithio'n ddiogel mewn amgylchedd stiwdio wrth weithio'n annibynnol ac o fewn grŵp. Dylid dilyn asesiadau risg priodol a chanllawiau COSHH bob amser.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu archwilio priodweddau a nodweddion ffisegol deunyddiau
- 2 Gallu datblygu syniadau dylunio yn ganlyniadau 3D gan ddefnyddio technegau a phrosesau adeiladu
- 3 Gallu dangos arferion diogel wrth ddefnyddio technegau a phrosesau 3D
- 4 Deall prosesau tecstilau 3D cerfluniol.



# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gallu archwilio priodweddau a nodweddion ffisegol deunyddiau

*Deunyddiau:* papurau e.e. o waith llaw, a wnaed yn fasnachol, pwysau amrywiol, gweadau; ffabrigau: synthetig e.e. acrylig, asetad, fiscos, PVC, latecs, polyester; naturiol e.e. cotwm, gwlan, lliain, sidan; edafedd, edau e.e. gwifren, elastig, ffibrau wedi'u nyddu ac amrywiol; metel e.e. dalen, gwifren a ffoil; ailgylchu ac a ganfuwyd e.e. gwydr, tuniau, gwifren, cerrig, pren, plu, deunydd planhigion

*Priodweddau a nodweddion ffisegol:* nodweddion a phriodweddau e.e. didreiddedd, tryleuedd, syrthni, adlewyrchedd, pwysau, cryfder, gwead ac anhyblygedd; perfformiad e.e. cryfder, fflamadwyedd, elastigedd, gwydnwch, pwysau, caledwch, hydrinedd, hyblygrwydd

## 2 Gallu datblygu syniadau dylunio yn ganlyniadau 3D gan ddefnyddio technegau a phrosesau adeiladu

*Prosesau adeiladu:* e.e. siapio, ffurfio, mowldio, uno, cysylltu, torri, gwifro, cydblethu, cyfnerthu, hollti, modelu

*Technegau:* technegau gwehyddu e.e. gwŷdd llaw, brêd, tabled, technegau tapestri e.e. clymau, dolenni, taselau, twffiau, technegau gwau e.e. gwneud ffelt â llaw, gyda pheiriant; technegau brodwaith e.e. â llaw, gyda pheiriant; trin ffabrig e.e. pletio, twcio, crychu, smocwaith, casglu, cwiltio, rhaflo, haenu, heneiddio, peipio; technegau eraill e.e. rhwydo, macramé, batic

## 3 Gallu dangos arferion diogel wrth ddefnyddio technegau a phrosesau 3D

*Arfer diogel:* technegau; prosesau gwaith paratoi, gwneud, gorffen, defnyddio offer a pheiriannau'n ddiogel

*Iechyd a diogelwch:* Deddf Iechyd a Diogelwch 1974, dileu risg i'w hunain ac i eraill; amgylchedd stiwdio, asesiadau risg COSHH, gwybodaeth dechnegol, arferion gwaith diogel

## 4 Deall prosesau tecstilau 3D cerfluniol

*Adolygu:* ymchwilio ac adolygu syniadau, pynciau, dylanwadau, gwelliannau, arferion gwaith, addasrwydd at y diben, cyfyngiadau dylunio

*Gwerthuso:* myfyrio, dadansoddi; deunyddiau, technegau, prosesau dethol; nodi e.e. cryfderau, gwendidau, llwyddiant, methiant technegau, offer; dewis, pwrpas, swyddogaeth

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> archwilio priodweddau a nodweddion ffisegol deunyddiau drwy gynhyrchu samplau [YA, MC, DM, GT, HR, CE]	<b>T1</b> cynhyrchu casgliad manwl o waith a chanlyniadau arbrofol yn archwilio priodweddau a nodweddion ffisegol deunyddiau	<b>Rh1</b> cyflwyno corff o waith gorffenedig wedi'i gynhyrchu'n annibynnol sy'n dangos ystod lawn o dechnegau a phrosesau 3D a dealltwriaeth ddeallus
<b>LI2</b> datblygu syniadau dylunio yn ganlyniadau 3D gan ddefnyddio technegau a phrosesau adeiladu [YA, MC, DM, HR]	<b>T2</b> gwerthuso dewis ac addasrwydd y technegau a'r prosesau adeiladu 3D drwy gydol y broses greadigol	
<b>LI3</b> defnyddio detholiad o dechnegau a phrosesau adeiladu 3D yn ddiogel [YA, MC, DM, GT, HR]		
<b>LI4</b> adolygu addasrwydd y technegau a'r prosesau 3D drwy gydol y broses greadigol. [YA, DM, GT, HR, CE]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 111: Trin Ffabrig

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>L/502/5440</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned yw cyflwyno dysgwyr i amrywiaeth o dechnegau trin ffabrig. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i adnabod ac i archwilio potensial amrywiaeth o ffabrigau a deunyddiau y gellir eu trin gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau a phrosesau i gynhyrchu dyluniadau a gwaith blaengar y gellir eu defnyddio mewn senario celfyddyd gain, tecstilau creadigol neu ffasiwn.

## Cyflwyniad yr uned

Mae artistiaid a dylunwyr tecstilau'n defnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, deunyddiau, technegau a phrosesau yn eu gwaith. Mae dylunwyr ac artistiaid tecstilau'n ymdrechu'n barhaus i gynhyrchu dyluniadau blaengar a gwaith ymarferol. Gellir defnyddio'r cynlluniau hyn at ddibenion swyddogaethol, megis ffasiwn, ategolion, ffabrigau i'r cartref a'r tu mewn. Gellir eu defnyddio hefyd mewn sefyllfaoedd lle nad oes swyddogaeth ddylunio i'r gwaith tecstilau, megis strwythurau annibynnol, croglenni a cherfluniau meddal. Ym maes dylunio tecstilau, mae ymarferwyr yn archwilio ac yn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o drin ffabrig. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth iddynt am nodweddion ffabrigau synthetig a naturiol. Gall yr wybodaeth hon wedyn fwydo'r broses ddylunio, wrth i ymarferwyr ddatblygu eu syniadau drwy ystyried yr hyn y maent wedi'i ddarganfod. Gall cyfuniadau o ffabrigau a thechnegau diddorol fod yn sail flaengar i allbwn ac arferion gwaith artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr.

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn gweithio drwy gyfres o dasgau a fydd yn rhoi gwybodaeth iddynt am drin ffabrig. Trwy archwilio ymarferol, byddant yn dysgu sut i adnabod nodweddion ffabrigau ac edafedd. Cyflwynir hwy hefyd i amrywiaeth o dechnegau a phrosesau trin ffabrig.

Bydd dysgwyr yn gwerthuso eu gwaith drwy ddadansoddi ac adolygu a bydd hyn yn bwydo yn ôl i mewn i'r broses ddylunio. Bydd dysgwyr yn mireinio eu syniadau ac yn dewis prosesau i'w datblygu ymhellach i sefyllfa neu friff a roddwyd.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu archwilio priodweddau a nodweddion ffabrigau
- 2 Gallu cynhyrchu corff o samplau gan ddefnyddio technegau a phrosesau trin
- 3 Gallu gwerthuso gwaith.

# Cynnwys yr Uned

## 1 Gallu archwilio priodweddau a nodweddion ffabrigau

*Archwilio ffabrigau ac edafedd naturiol a synthetig:* ee rhwyll, net, les; papurau e.e. o waith llaw, a wnaed yn fasnachol, pwysau gwahanol, gweadau gwahanol; ffabrigau synthetig e.e. acrylig, fiscos, PVC, Lycra™, Gore-tex™, satinau, polyester; ffabrigau naturiol e.e. cotwm, gwlan, sidan, swêd, llieiniau; deunyddiau wedi'u ffabrigo e.e. ffelt, rwber, plastig; strwythurau wedi'u gwehyddu e.e. clos, llyfn, wedi'u gwau yn llac, plaen, pwyth cyfunol, Jacquard

*Priodweddau a nodweddion:* golwg e.e. didraidd, tryloyw, pwysau, gwead, gloyw, afloyw; ystyried perfformiad e.e. cryfder, fflamadwyedd, elastigedd, gwydnwch, pelennu

## 2 Gallu cynhyrchu corff o samplau gan ddefnyddio technegau a phrosesau trin

*Technegau a phrosesau:* e.e. pletio, smocwaith, casglu, peipio, torwaith a chwiltio; rhaflo, torri, mowldio, llosgi; adeiladu, cydosod, uno; siapio, bondio, heneiddio; tyllu, haenu, disodli, tynnu edafedd

*Deunyddiau:* deunyddiau traddodiadol e.e. ffabrigau naturiol a synthetig, aquafilm, bondaweb; deunyddiau nad ydynt yn draddodiadol e.e. plastigion, papur, ffurf gwifren, ffwr ffug, deunyddiau a ganfyddir ac wedi'u hailgylchu

*Arfer diogel:* iechyd a diogelwch: Deddf Iechyd a Diogelwch 1974, dileu risg i'w hunain ac i eraill; meddwl a gweithio'n ddiogel mewn amgylchedd stiwdio, dilyn arweiniad COSHH ar ddeunyddiau ac arfer gweithdy

*Datblygu:* cynhyrchu, ehangu, symud ymlaen, mireinio samplau wedi'u brodio gan ddefnyddio technegau a phrosesau priodol

*Sefyllfaedd:* cyd-destun e.e. tecstilau celfyddyd gain, ffasiwn, tu mewn, masnachol; swyddogaethol e.e. labeli; ansyddogaethol e.e. addurniadau; defnyddio e.e. 2D, 3D, penodol i safle; cofnodi e.e. darluniau, cofnodion, llyfrau nodiadau, delweddau; cyfeiriadau priodol at ymarfer proffesiynol

## 3 Gallu gwerthuso gwaith

*Dadansoddi:* ystyried llwyddiannau arferion gwaith a/neu feysydd i'w datblygu; defnydd o gyfryngau; technegau a ddefnyddiwyd; ansawdd ac estheteg y gwaith

*Adolygu a mireinio syniadau:* e.e. ystyried syniadau, pynciau, dylanwadau, ystyried addasrwydd at y diben, egluro bwriadau ac arferion gwaith, ystyried canlyniadau profion, safbwyntiau eu hunain ac adborth gan bobl eraill

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio ac adnabod priodweddau a nodweddion ffabrigau wrth gynhyrchu samplau trin ffabrig [YA, MC, HR]	<b>T1</b> cynhyrchu gwaith datblygu, profion a samplau yn gyson sy'n dangos dealltwriaeth a phwrpas wrth addasu syniadau	<b>Rh1</b> trin amrywiaeth gynhwysfawr o ffabrigau yn annibynnol i gynhyrchu set greadigol a dychmygus o samplau
<b>LI2</b> defnyddio technegau a phrosesau wrth gynhyrchu corff o samplau [YA, MC, HR]	<b>T2</b> dadansoddi, adolygu a mireinio amrywiaeth eang o syniadau a phrosesau a ystyriwyd yn dda yn effeithiol ar adegau perthnasol	<b>Rh2</b> dadansoddi, adolygu a mireinio amrywiaeth gynhwysfawr o syniadau a phrosesau soffistigedig yn graff ar gamau perthnasol
<b>LI3</b> gwerthuso samplau trwy gydol y camau datblygu [DM, HR]	<b>T3</b> cynhyrchu amrywiaeth gydlynol o ganlyniadau effeithiol yn effeithiol i friff neu senario a roddwyd	<b>Rh3</b> cynhyrchu ymateb soffistigedig ac amrywiaeth gyffrous o ganlyniadau blaengar yn annibynnol i friff neu senario a roddwyd



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned 120

# Cyfryngau, Technegau a Thechnoleg Ffasiwn

<b>Cod yr Uned:</b>	<b>A/502/5384</b>
<b>FfCCH Lefel 3:</b>	<b>Tystysgrif Genedlaethol BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau mewn gwaith creadigol yn y diwydiant ffasiwn trwy archwilio ystod o ddeunyddiau, technegau adeiladu a thechnolegau gwneud dillad sy'n gysylltiedig â dylunio ffasiwn.

## Cyflwyniad yr uned

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu potensial ar gyfer gwaith creadigol yn y diwydiant ffasiwn trwy archwilio amrywiaeth o ddeunyddiau a sgiliau technegol sy'n gysylltiedig â dylunio a gwneud ffasiwn.

Mae deall nodweddion amrywiaeth eang o ddeunyddiau a phrosesau ffasiwn yn hanfodol i lwyddo yn y diwydiant ffasiwn cystadleuol cyfredol sy'n newid yn barhaus. Rhaid i ddylunydd ffasiwn feddu ar ddealltwriaeth eang o ddeunyddiau a phrosesau technegol i'w defnyddio i lwyddo i fodloni gofynion amrywiaeth eang o friffiau dylunio. Bydd y gallu i archwilio, i arbrofi ac i werthuso amrywiaeth eang o ddeunyddiau ffasiwn a phrosesau gwneuthuriad traddodiadol a blaengar yn rhoi'r sgiliau i'r dysgwr ffynnu mewn sector sy'n datblygu'n gyflym.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr wedi archwilio a gwerthuso amrywiaeth o ddeunyddiau a phrosesau ffasiwn a byddant yn deall eu potensial i wneud dillad. Bydd y sylfaen wybodaeth hon yn galluogi dysgwyr i ddewis deunyddiau a phrosesau ffasiwn ar gyfer canlyniadau ffasiwn i fodloni gofynion briffiau penodol. Bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â phrif gamau cynhyrchu dillad yn fasnachol ac yn dod yn ymwybodol o ddibenion a'r defnydd o ddylunio gyda chymorth cyfrifiadur (CAD) a gweithgynhyrchu gyda chymorth cyfrifiadur (CAM) yn y diwydiant ffasiwn.

Mae'r uned hon yn baratoad addas ar gyfer *Technegau Cynhyrchu Ffasiwn a Dillad*, sy'n archwilio'r broses dylunio ffasiwn, o ddatblygu syniadau i ddechrau i greu'r canlyniad(au) terfynol. Bydd yr uned hon hefyd yn rhoi sylfaen gadarn o sgiliau technegol i astudio ar lefel uwch.

## Canlyniadau dysgu

### **Pan gwblheir yr uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu ymchwilio i brosesau gwneud ffasiwn
- 2 Gallu defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg ffasiwn yn ddiogel
- 3 Deall priodweddau defnyddiau ffasiwn ac archwilio eu potensial
- 4 Gallu cynhyrchu cynnyrch gorffenedig.

# Cynnwys yr Uned

---

## 1 Gallu ymchwilio i brosesau gwneud ffasiwn

*Torri patrwm sylfaenol:* dylunio patrwm; cynllun patrwm; gwneud patrwm e.e. gan ddefnyddio blociau, gorchudd, modelu ar y stondin (bodis, sgert, blociau trowsus, cwtogi, troi dartiau, trin dartiau); nodweddion e.e. llinellau gwddf, llewys, coleri; newid patrymau; llunio; torri darnau patrwm maint llawn; dillad penodol; nodi nodweddion e.e. dartiau, semau, ffesinau, pocedi, marciau graen; gofalu am batrymau a'u storio

*Technegau llunio dillad:* samplau gwnïo e.e. darnau patrwm, deunydd, yr economi, torri ar gyfer steil, dylunio; cydrannau (nodi, marcio); ffesinau cudd; pinio; tacio; semio; gosod e.e. newid patrymau, llewys, dartiau, pletiau, casglu

*Dulliau gorffen dillad:* gorffeniadau semau; ffesinau; gorffeniadau eraill e.e. rhwymo, hemio, leinin; bachau e.e. botymau a thyllau botymau, sipiau, clymau, dolenni rouleaux, Velcro, lasin, byclau, popwyr, bachau, llygaid; dulliau pwysu; nodweddion pwysu ffabrigau

*Swyddogaethau a defnyddio offer llaw:* siswrn; gwelleifiau; cyfarpar torri patrymau e.e. olwyn ddargopïo, papur dargopïo, meistr patrwm (llai a maint llawn), cromlin torri patrwm, sgwaryn, bylchwyr, mynawyd; pinnau a nodwyddau

*Swyddogaethau a defnyddio offer pŵer:* peiriannau gwnïo e.e. cartref, diwydiannol; cyfarpar pwysu a stemio

*Cynllunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD) a gweithgynhyrchu drwy gymorth cyfrifiadur (CAM):* defnyddio e.e. meddalwedd, rhaglenni dylunio

## 2 Gallu defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg ffasiwn yn ddiogel

*Iechyd a diogelwch:* Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, dileu risg iddynt eu hunain ac i eraill; Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) (2002); offer; deunyddiau; prosesau; cyfarpar; Rheoliadau Offer Amddiffyn Personol y Gwaith (1992); offer amddiffynnol personol; Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (1998); diffygion e.e. offer, cyfarpar, camau cywiro

*Ymarfer gweithdy:* ymarfer gweithdy diogel; cydymffurfio ag asesiadau risg; rheolau stiwdio e.e. ardal weithio, hylendid, gwastraff, rhwystrau, glendid, cyfarpar; gwaredu gwastraff

### 3 Deall priodweddau defnyddiau ffasiwn ac archwilio eu potensial

*Deunyddiau:* naturiol; synthetig; cyfuniadau; ffabrigau eraill e.e. crwyn naturiol a ffug, ffabrigau heb eu gwehyddu ac wedi'u gwau; leinin cudd; bachau; addurniadau

*Priodweddau:* e.e. gorchudd, elastigedd, inswleiddio, cryfder, gallu golchi

*Nodweddion:* e.e. gwedd, teimlad, gwehyddu, llewyrch, dwysedd, trwch, tryloywder; nodweddion gwnïo a phwyso

*Rhinweddau:* graen; ystof; ceden; peil; patrwm

*Potensial:* nodweddion y ffabrig; gofynion dylunio e.e. dillad allanol, dillad dydd, ffurfiol, anffurfiol, gwisg chwaraeon, gwisg berfformiad, gwisg achlysur; oedolion; plant

### 4 Gallu cynhyrchu cynnyrch gorffenedig

*Cydosod:* creu e.e. cynhyrchu, arddangos, creu (samplau, darnau prawf, cynnyrch terfynol); materion e.e. problemau, pwyntiau, effaith, cynhyrchiad terfynol; manylebau e.e. darnau o ddillad, technegau gwnïo

*Cynhyrchu:* potensial; cyfyngiadau, addasrwydd i'r diben; gorffen; rhinweddau esthetig e.e. ffabrigau ffasiwn, dillad; dulliau gwnïo; maint nodwydd; amrywiadau pwythau; samplau prawf; proses e.e. semau, ffabrigau, dillad terfynol; cofnodi e.e. taflenni gwaith anodedig, llyfrau nodiadau, llyfrau braslunio, taflenni dylunio

*Cyflwyno cynllunio cyflwyniad canlyniadau:* e.e. dulliau, arddangos, digidol, taflenni gwaith, datblygiadau dylunio, cynnyrch gorffenedig, eitem unigol, casgliad; fformat e.e. arddangosiad llonydd, sioe ffasiwn, ar y sgrin; cynulleidfa darged

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
Er mwyn cyflawni gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	Er mwyn cyflawni gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> ymchwilio i brosesau gwneud ffasiwn [MC]	<b>T1</b> defnyddio prosesau ffasiwn mewn ffordd reoledig a phwrpasol, gan gymharu nodweddion a phriodweddau prosesau gwneud ffasiwn amrywiol	<b>Rh1</b> datblygu cynnyrch cyfryngau, deunyddiau a thechnoleg ffasiwn yn annibynnol ac yn greadigol i gynhyrchu cyflwyniad cyffrous a gwreiddiol
<b>LI2</b> defnyddio cyfryngau, technegau a thechnoleg ffasiwn yn ddiogel [DM, GT, HR, CE]	<b>T2</b> dangos defnydd arbrol ac effeithiol o gyfryngau, deunyddiau a phrosesau ffasiwn wrth gyflwyno cynnyrch gorffenedig	
<b>LI3</b> adolygu priodweddau deunyddiau ffasiwn o ran gofynion dylunio [DM, GT, CE]		
<b>LI4</b> cynhyrchu cynnyrch gorffenedig. [YA, DM]		

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnoddi, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol